

LLAIS

'Ffrydiau arian yn byrlymu...': Caryl Elizabeth Chiswell 1922-2021

Mae rhai wythnosau wedi mynd heibio ers colli Mam, a minnau bob dydd yn dal i feddwl bod angen codi'r ffôn i weld shwt hwyl sydd arni. Mae'r dynfa at y tŷ cyn gryfed ag erioed, i roi trefn ar bethau erbyn hyn wrth gwrs, ond hefyd, rywsut, i chwilio amdani. Ac yno y mae hi o hyd i'w chanfod yn ei chadair wrth y ffenest yn syllo ar y Darren, ger y tegell yn sgwrsio wrth aros i'r dŵr ferwi ac wrth y piano yn mwytho'r allweddellau'n dynner wrth i'r seiniau dreiddio'r tŷ. Er chwilfrydedd awchus ei meddwl chwim am bob agwedd ar fywyd, dim ond yno y dymunai fod. Yn y tŷ lle ganed hi ac yn y filltir sgwâr a'i ffurfiodd hi. Hyd y diwedd, o'i gwely ysbyty, bu'n 'edrych mla'n at fynd sha thre'.

'Does dim syndod chwaith. Bu fyw bywyd llawn a difyr yno a gwelodd dalp go iawn o'r byd a'i bethau yn ystod ei chyfnod helaeth yn y cwm. Gwelodd fwrllwm y diwydiannau trymion, y mynd a'r dod, y byw a'r marw. Gwelodd gochni rhyfel byd yn y nen ac Abertawe'n Fflam. Yno cafodd y fraint o dyfu mewn cymdeithas glos a seiliwyd ar gyd-dynnu o ddydd i ddydd, y gymdeithas a ffurfiodd ei gwleidyddiaeth. Gwelodd hefyd fri a chwymp y capeli ac yn drist, teimlodd loes colli Capel Pant-teg, un o gonglfeini mwyaf cadarn ei bywyd drwy'r cyfan.

Do, mi grwydrodd am gyfnod i gael ei haddysg yng ngholegau prifysgol Aberystwyth a Chaerdydd gan ddisgleirio yno, a threuliodd hefyd gyfnod byr fel athrawes yn Y Rhymni ond yn ôl y daeth at ei chwmd a'i phobl.

Roedd byd addysg yn hynod bwysig iddi a hynny nid yn unig fel galwedigaeth. Yn hytrach roedd fel petai'n rhan o'i chyfansoddiad ac yn yriant i'w bywyd. Teimlai'n angerddol am ei phroffesiwn. Roedd Ysgol Ramadeg Pontardawe, a wedyn Ysgol Gyfun Cwm Tawe yn agos iawn at ei chalon ac ar ôl iddi ymddeol mi lenwyd y bwlch gan Ysgol Gyfun Ystalyfera a hithau'n llywodraethwraig yno tan yn ddiweddar iawn, ymhell i ganol ei nawdegau. Roedd hi'n frwd dros yr ysgol honno ac yn benderfynol o gael y gorau posib i'w disgyblion. Roedd hi mor falch o gampau'r ysgol. 'Sgwn i a deimlai ryw ddyletswydd i adalu am yr addysg a dderbyniodd hithau ei hun rhwng ei muriau yn ystod tridegau'r ganrif ddiwethaf, heb son am addysg ei rhieni cynt, a'i mab wedyn.

Er bod dysgu mor flaenllaw yn ei bywyd, bu llenyddiaeth a cherddoriaeth hefyd yn holl bresennol. Dyfynnai ryddiaith a barddoniaeth yn eang a diymdrech wrth sgwrsio, a hynny yn y naill iaith a'r llall ac roedd clasuron y cyfansoddwyr mawr yn rhwydd o dan ei llaw wrth y piano. Roedd hi wir yn gerddor dawnus ac yn bianydd rhagorol a chanddi gyffyrddiad a mynegiant heb eu hail. Roedd gyrfa fel unawdydd yn sicr o fewn ei chyrraedd. Meddai ar y ddawn i ddehongli llenyddiaeth a cherddoriaeth fel ei gilydd ac yn fwy prin, y ddawn hefyd o drosglwyddo'i dehongliad i eraill boed hynny o flaen dosbarth i'w disgyblion neu wrth yr allweddell o flaen cynulleidfa. Er na

sylweddolwn hynny tan flynyddoedd yn ddiweddarach, braint i mi fel rhyw lun ar gerddor ifanc, oedd cael clywed o ddydd i ddydd y Chopin, y Bach a'r Mozart yn atseinio ar hyd y tŷ i'r fath safon.

Doedd bywyd yn New Street ddim yn fwisig i gyd chwaith. Roedd gennym berthynas ddigon dadleugar. Parodd hynny hyd y diwedd a mentrwn ddweud i ni'n dau, ar y cyfan, fywnhau ein mân gweryla - y dadleuon ynghylch gwleidyddiaeth a chrefydd yn ogystal â'r gwaith cartref! Ai'r anghytuno yn ddigon brwd ar brydiau, ond cilio wnai'r gynnen ar amrantiad wrth i'r sgwrs droi mor ddisymwth ag y cododd at ddigwyddiadau di-nod y dydd dros ddishgled.

Roedd ei phersonoliaeth yn frodwaith diddorol. Tra'n gwbl ddiolfn a chlir ei barn a mor frwd wrth amddiffyn safbwynt, hi yw'r unigolyn mwyaf anhunanol i mi gyfarfod erioed a chlywais fyth mohoni'n chwennych yr un dim. Roedd hi'n fam ac yn gyfaill union ac wrth fy nghefn ym mhob peth, yn ddiffaer ar bob un tro.

Soniodd wrthyf nad oedd hi'n ofni marw na 'chwaith yn dymuno ei bywyd yn ôl i fyw drachefn. Ei hunig ofid oedd na welai ei hwyrseu euraid ymhellach ar hyd eu taith trwy fywyd. Roedd hi'n eu caru o grombil ei henaid. Hi oedd eu hathrawes



Manon a Mari gyda Mamgu

biano tan i'r teithiau bws i Gaerdydd ymhen hir a hwyr fynd yn drech na hi. Dysgodd ddigon ohonynt i drosglwyddo iddyn nhw gyfrinachau ei thechneg a'i chyffyrddiad, a mor braf y bydd i mi, wrth eu gwyllo nhw'n chwarae, gael gweld Mam yn fyw yn eu llaw.

Roedd hi'n gymaint rhan o'i bro â'r ddau fynydd a fu'n ei gwarchod gyhyd, ac i mi bydd ei phresenoldeb i'w deimlo yn ei thirwedd am byth. Dyma eiriau a ddaeth i mi yn ddiweddar mewn ennyd tra yn y tŷ yng Ngodre'r Graig ar ôl ymweld â hi yn yr ysbyty. Gwyddwn yn iawn fesur ei hiraeth a gwyddwn na wela'i hi eto mo'r hen le.

Darlun i Mam

Dyrchafaf fy llygaid i'r mynydd
O lle y daw fy nheulu,
A tithe yn dy wely ysbyty'n bell
Yn hen a thawel yn dy grud.
O'r tŷ gwag mynnwn hudo atat fy nhrem
Drwy ffenest dy blentyndod;
Y gaeaf ar y llethrau'n llwm,
Glaw'r cwm yn ei garthenni'n cyhwan
A rhwng hen greithiau'r glo,
Ffrydiau arian yn byrlymu tua'u gweryd.

Huw Chiswell

Mae'n gyfnod bwrw pleidlais eto, ac erbyn i'r *Llais* hwn ymddangos, go debyg y bydd aelodau wedi'u hethol. Rhaid edmygu unrhywun sydd am dderbyn y cyfrifoldeb o'n cynrychioli yn y Senedd; byddant yn mynd o'u gwobr fuddugoliaethus ar noson y cyfrif at waith caled ac anodd bod yn llais dros eu hetholwyr.

Ar agenda'r Llywodraeth newydd bydd y materion arferol sydd ynghlwm wrth weinyddu gwlad: gwasanaethau lleol, addysg a thai (ond nid darlledu yng Nghymru!) ond hefyd yr ailsefydlu economaidd hanfodol yn dilyn Coronafirws - ac mae'r haint farwol a'i heffeithiau dirdynnol ar fywydau a bywiolaethau ymhell o fod drosodd. A dydyn ni ddim eto wedi dechrau teimlo effeithiau andwyol y Brecsit ffôl.

I ni'r etholwyr, cyrhaeddodd toreth o lenyddiaeth yr ymgeiswyr drwy'r drws - ambell un yn werth ei ddarllen ac yn dangos gwir ofal a chonsyrn yr ymgeisydd dros yr ardal a'i hetholwyr. Ambell un arall yn taro'n chwithig iawn, nid yn unig am eu bod yn uniaith Saesneg ac felly'n sarhau ein hiath, ein diwylliant a phob ymdrech i roi dyfodol dwyieithog i'n hieuenctid, ond am eu bod yn anwybyddu hawl Cymru i fod yn genedl - hawl a enillwyd dros ganrifoedd o frwydro llythrennol a chyfansoddiadol.

Y rhyfeddod mwyaf oedd gweld un ymgeisydd (o'r naw ar y ffurflen bleidleiso) a oedd am ddiddymu'r union Senedd yr oedd mor awyddus i ymuno â hi! Mae digon o gymhlethdodau'n wynebu Llywodraeth newydd ein gwlad heb orfod dal pen rheswm â lleisiau sy'n amau'n barhaus a all Cymru lywodraethu'i hunan. Gyda'r Alban yn nesáu at annibyniaeth haeddiannol, mae gwir berygl y byddwn yn rhan o wladwriaeth newydd 'Lloegr a Chymru'. Prin iawn yw'r gwledydd sy'n dymuno cael eu rheoli gan wlad arall, felly'r cwestion ddylid ei ofyn yw: a all Cymru fforddio peidio â rheoli'i thynged ei hun?

Eurig Davies

Golygydd mis Mehefin 2021
Dewi Myrddin Hughes
 Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:
papurbrollais@gmail.com
Erbyn Mai 20fed os gwelwch yn dda.

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Cyhoeddir y LLAIS yn fisol gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Ni ellir gwarantu cynnwys unrhyw ddeunydd a anfonir i'w gyhoeddi yn y LLAIS na derbyn cyfrifoldeb am ei ddychwelyd.

Cofio dau o gewri Cwm Tawe

DAFYDD ROWLANDS

Ugain mlynedd yn ôl ar 26 Ebrill 2001 bu farw'r Prifardd ar cyn-Archdderwydd Dafydd Rowlands.

Fe'i ganed ar ddydd Nadolig 1931 yn Heol Smithfield, Pontardawe, a'i fedyddio David Heslin Rowlands. Mae'r hanesyn amdano ef a'i gyd-ddisgybl Jane Phillips yn cael eu hailfedyddio 'Dafydd' a 'Siân' gan eu hathro Eic Davies yn hen gyfarwydd i ni. Bu Henry Lewis a Hugh Bevan yn Adran Gymraeg y Brifysgol yn Abertawe yn ddylanwadau mawr ar Dafydd, ynghyd â llenorion Cymraeg fel Rhydwen Williams ac Islwyn Ffowc Elis ac awduron Saesneg fel Allen Ginsberg a Jack Kerouac.

Wedi cyfnod byr yn weinidog ar Ebeneser, Brynman, derbyniodd Dafydd swydd athro yn Ysgol Ramadeg y Garw, cyn symud yn 1967 yn ddarlithydd i Goleg y Drindod, Caerfyrddin, lle bu'n cydweithio â T James Jones, Carwyn James, T Gwynn Jones a Raymond Garlick.

Daeth llwyddiant Eisteddfodol i ran Dafydd pan enillodd Goron y Fflint yn 1969 a chyflawni'r dwbwl yn 1972 drwy ennill y Goron a'r Fedal Ryddiaith. Cyhoeddodd sawl cyfrol o farddoniaeth: *Meini* (1972), *Ysgrifau'r Hanner Bardd* (1972), *Yr Wythfed Dydd* (1975), *Mae Theomemphus yn Hen* (1977) *Paragraffau o Serbia* (1980), *Sobers a Fi* (1995) a *Cerddi'r Troad* (2000). O 1983 bu'n awdur proffesiynol amser-llawn yn sgriptio cyfresi megis 'Pobl y Cwm' a 'Licyris Olsorts', a ymddangosodd hefyd yn gyfrol yn 1995. Cynhyrchodd hefyd sawl ffilm fer drawiadol a rhaglenni dogfen ar Gwenallt, Ann Griffiths a Therfysgoedd Rebeca.

Fe'i hurddwyd yn Archdderwydd yn y Bala yn 1996 ac fe'i gwnaed yn Gymrawd er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1998.

Molawd i deulu, cymdeithas a bro yw prif themâu Dafydd yn ei weithiau - mae'n canmol ac weithiau'n beirniadu, a thrwy hynny down i adnabod ein hunain yn well, sef un o bwrpasau mawr llenyddiaeth.



T. E. NICHOLAS - NICLAS Y GLAIS

Hanner can mlynedd yn ôl i eleni ar 19 Ebrill 1971, bu farw Niclas y Glais, sef y Parchedig T E Nicholas: gweinidog Cristnogol, heddychwyr, bardd, sosialydd comiwnyddol, radical tanbaid, anghydfurfiwr - a deintydd.

Fe'i ganed ar 6 Hydref 1879 a'i godi yng nghymunedau gwledig Llanfyrnach a Phentregalar, lle dylanwadwyd arno gan gymdeithas gymdogol a chydweithredol godre'r Preseli.

Wedi cyfnod byr yn weinidog yn Dodgeville, Wisconsin, derbyniodd alwad i Seion y Glais yn 1904, lle mae'i enw o hyd ar Heol Nicholas. Pregethai radicaliaeth a chyfiawnder, brawdgarwch a heddwch. Apeliai am wladoli tir ac am Senedd i Gymru, a gwrthwynebai'r teulu brenhinol, bragwyr a militarïaeth.

Ymunodd â'r ILP - y Blaid Lafur Annibynnol - yn 1905 a bu'n gyfaill agos i Keir Hardie, a oedd er 1900 yn AS Merthyr. Yn 1914 sefydlwyd Niclas yn weinidog yn Llanybi a Llanddewibrefi ac yn 1918 safodd yn ymgeisydd yr ILP dros Aberdâr, lle cafodd ei wawdio a'i gam-drin oherwydd ei wrthwynebiad i'r Rhyfel.

Yn 1918 hefyd ymddiswyddodd o'r weinidogaeth a threfnu gwision ffermydd yn Undeb Llafur, gan sefydlu'r Blaid Lafur yng Ngheredigion. Wedi'r Rhyfel, bu'n ddeintydd ym Mhontardawe, gan symud y ddeintyddfa i Aberystwyth yn 1921.

Ymunodd â'r Blaid Gomiwnyddol yn 1920 a chafodd ei ddiarddel gan y Blaid Lafur yn 1926 am feirniadu arweinyddiaeth Ramsay MacDonald. Bu'n ddarlithydd, pregethwr, bardd a cholofnydd poblogaidd gan gyfrannu 'O Fyd y Werin' yn wythnosol i'r *Cymro* drwy'r 1930au.

Ym Mehefin 1940, fe'i carcharwyd ar gyhuddiad ffug o fod yn ffasgydd, a thra yng ngharchardai Abertawe a Brixton cyfansoddodd 150 o sonedau Cristnogol-Gomiwnyddol. Cyhoeddwyd llawer o farddoniaeth y cyfnod hwn yn *Llygad y Drws: Sonedau'r Carchar* (1940) a *Canu'r Carchar* (1942). Gwasgarwyd ei lwch ar fryniau ei fachgendod yn y Preseli ac fe'i cofir am ei argyhoeddiad gwleidyddol dwfn dros hawliau'r werin.

Eurig Davies

CORNEL NATUR

DEWI LEWIS

EITHIN

Gyda'r cyfyngiadau oherwydd y feirws yn llacio'n raddol roedd hi'n braf cael mentro i deithio ymhellach dros wyliau'r Pasg. Euthum ar dro i arfordir Ceredigion a cherdded rhan o Lwybr yr Arfordir rhwng Borth a Chlarach. Un o'r pethau a'm trawodd yn ystod y daith oedd arogl yr eithin ar hyd lethrau'r arfordir. Er mai diwedd mis Mawrth oedd hi, roedd blodau yr eithin yn rhoi sioe wrth felynu'r gwrychoedd a'r llethrau

'Pwy a ddywed pa ddewin - a baentiodd
Â'i bwyntil yr eithin?'

Dyna oedd ymholiad Tom Richards, Y Wern, Llanfrothen. Mae lliw melyn y blodau yn drawiadol iawn o bell ac mae arogl hyfryd y blodau yn debyg iawn i arogl cneuen goco. Ond peidied neb â rhoi ei drwyn rhy agos neu pigiad go hegar gewch chi.

Yng Nghymru mae dau fath o eithin yn tyfu, sef yr eithin Ffrengig a'r eithin Cymreig. Bydd yr eithin Ffrengig yn tyfu hyd at ddeg troedfedd o uchder ond dim ond hyd at ddwy neu dair troedfedd fydd yr eithin Cymreig yn tyfu. Hwn sydd yn melyn llethrau'r brynau ar ddiwedd yr haf mewn cyfuniad perffaith â phorffor blodau'r grug tua chanol mis Awst. Yn anffodus, hwn hefyd yw'r eithin sydd yn pigo'r fferau wrth i chi gerdded trwyddo. Yr eithin Ffrengig oedd yn ei flodau ar arfordir Ceredigion a digon hawdd oedd osgoi ei bigiadau. Yr hyn sydd yn rhyfeddol am yr eithin yw fod tymor blodeuo y ddau fath yn eithaf hir. Maent ar eu hanterth o fis Mai hyd Awst ond ceir blodau arnynt yn ystod misoedd y gaeaf. Y cyfnod hir hwn o flodeuo sydd y tu ôl i'r ddau ddywediad ei bod yn 'dymor caru tra bo'r eithin yn ei flodau' ac am rywun sydd yn gyndyn o dalu 'fe dalith pan fydd yr eithin yn gorffen blodeuo'.

Un o'r rhesymau pam fo'r eithin Ffrengig mor gyffredin yw iddo gael ei blannu ar un adeg fel cnwd i fwydo anifeiliaid. Aelod o deulu'r legiwm, sef teulu'r pys yw eithin ac mae'n llawn protin maethlon. Unwaith fydd y blodau yn darford fe fydd codau (*pods*) yn ffurfio sydd yn llawn hadau tebyg i bys. Er mwyn cynhyrchu porthiant i'r anifeiliaid byddai canghennau ifanc o'r eithin yn cael eu curo gyda phastwm pren er mwyn malu'r pigau a'r coesau yn slwtsh meddal. Roedd modd wedyn cymysgu'r eithin gyda gwair neu geirch a'i fwydo i anifeiliaid.

Erbyn canol y ddeunawfed ganrif roedd melinau eithin pwrpasol i'w cael yng Nghymru a hadau eithin Ffrengig yn cael eu mewnfurio o Ffrainc. Byddai'r hadau yn cael eu hadu mewn safleoedd pwrpasol a'r eithin yn cael ei gynaeafu mewn cylchdro o dair blynedd. Byddai'r eithin yn cael ei blannu yn agos iawn er mwyn sicrhau bod coesau'r planhigion yn tyfu yn syth i fyny heb frigau neu ganghennau. Byddai hyn yn sicrhau bod y coesau yn aros yn feddalach a dim yn rhy bigog.

Gwelir eithin hefyd yn aml mewn gwrychoedd. Roedd yn blanhigyn defnyddiol iawn i reoli ac atal stoc rhag dianc o'r cae. Un anfantais gydag eithin yw'r ffaith ei fod mor fflamadwy (*flammable*). Dyna un o beryglon cyfnodau o dywydd sych yn y gwanwyn a'r haf, sef bod rhywrai am roi matsien i'r eithin gan greu difrod sylweddol. Ar un adeg roedd coesau neu foncyffion eithin wedi crino sef 'poethwal' yn cael eu defnyddio ar gyfer tân. Tân byrhoedlog yw tân eithin, fflamau mawr gwyllt a digon o fwg sydd yn dod i ben yn sydyn. Yn aml iawn fe glywir y disgrifiad o berson sydd yn creu stŵr cyn chwythu ei blwc yn 'dân eithin'. Ond er mor hyfryd yw gweld ac arogl'i'r eithin gall fod yn elyn i fyd natur

os rhoir ef ar dân. Byddai fy nhad wastod yn ein rhybuddio i beidio â chynnau tân lle bo eithin yn enwedig ar y Comin ar lan yr afon Glaslyn lle roedd adar yn nythu. A dyna yn wir oedd rhybudd Eifion Wyn i blant ei fro

'Ac na thorrwch galon llinos-
Na rowch dŷ y dlos ar dân'

Gwell o lawer yw arogl cneuen goco parhaol blodau'r eithin nag arogl byrhoedlog tân eithin.

Dewi Lewis

POBOL Y CWM

Y PARCHEDIG DDR.
EDWIN COURTNEY LEWIS

Yng nghapel Bwlch-y-corn, Sir Gaerfyrddin ar 8 Chwefror eleni cynhaliwyd gwasanaeth angladdol y Parchedig Ddr. Edwin Courtney Lewis. Fe'i ganed yn 1929 yn Ynysmeudwy a'i godi'n eglwyswr, ac aeth i Goleg y Drindod, Caerfyrddin i hyfforddi'n athro. Torrwyd ar ei gwrs yno pan ymatebodd i gais i gyflawni Gwasanaeth Filwrol ('Cenedlaethol') ac fe'i dyrchafwyd yn sarjant, ond gwrthododd dderbyn comisiwn ar ddiwedd ei gyfnod yn y fyddin.



Ailafelodd mewn gyrfa ym myd addysg a bu'n Bennaeth ar ysgolion cynradd Cymraeg Pontarddulais a Phontybrein. Brwydrodd yn ddygn gydag eraill i sefydlu addysg Gymraeg mewn sir a oedd yn wrthwynebus i ddatblygiad o'r fath, ac aeth ymlaen i gynhyrchu traethawd doethur ar hanes addysg Gymraeg - yn Saesneg er mwyn lledu neges y Gymraeg a dangos y cam a gafodd yr iaith dros y blynyddoedd.

Ergyd i Edwin oedd colli'i wraig Jean yn ifanc. Ailbriododd â Meriel ac fe'i hordeiniwyd ym 1994 gan dderbyn galwad i weinidogaethu yn Soar, Llanbedr Pont Steffan; Bethel, Parc-y-rhos; Saron, Ffaldybrenin ac Egairdawe. Ym 1988, derbyniodd alwad i fod yn weinidog yng nghylch Bwlch-y-corn a Pheniel, gofalaeth y bu'r Parchedig T Elfyn Jones, gynt o'r Tabernacl Pontardawe yn weinidog arni. Cymerodd Edwin gapel Nebo Llanpumsaint at yr ofalaeth a bu'n weinidog mawr ei barch yn y cylch. Bu'n ffyddlon i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg hefyd, gan gadeirio Adran Addysg a Chyfathrebu'r Undeb o 1997 hyd 2002.

Daeth ergyd bersonol arall i'w ran pan gollwyd Meriel tra eto'n ifanc. Roedd Edwin eisoes yn awdur gwerslyfrau, esboniad ar Efengyl Marc a geiriaduron, ac ymdafodd ei hun fwyfwy i fyd ysgrifennu gan gyhoeddi *Mil a Mwy o Weddiau* yn 2010 a *Mil a Mwy o Emynau* yn 2013.

Ymfudodd i Seland Newydd yn 2017 at ei ferch Heledd a'r teulu, ond ymhen rhai misoedd dychwelodd Edwin, a dathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed gyda'i gyd-aelodau ym Mwlch-y-corn. Coffa da am athro diwyd, gweinidog diffuant ac awdur toreithiog.

Eurig Davies

CLECS CATHERINE

Mae Catherine Davies-Woodrow yn byw yn Ystalyfera ac ar ôl dysgu'r iaith, mae hi nawr yn gweithio fel Tiwtor Cymraeg.

Lawr Ar Lan y Môr

Mae'n teimlo fel bod y byd yn deffro ar ar ôl cwsg dwfn – cwsg Coronafeirws. Mae'n mor braf gweld y Magnolia'n blodeuo yn fy ngardd ffrynt a lledaenu'i arogl persawrus mewn frwydiad porffor. Symbol o fywyd newydd, Mae'n ddechrau newydd.

GWYLIAU

Aethon ni i lawr i sir Benfro dros wyliau'r Pasg i fanteisio ar lacio'r cyfyngiadau. Arhoson ni mewn carafan ar safle tu fa's Cilgeti, rhyw saith milltir o Ddinbych y Pysgod. Roedd bwrlwm a chyffro cyn gynted i gyrraedd y carafan. Roedd ein dwy wyres wedi dod, a oedd yn bleserus iawn i ni – yn enwedig ein mab. Cawson ni amser hamddenol gyda'n gilydd ac amser i archwilio traethau a threfi.

'Dw i wedi mynd i Ddinbych y Pysgod lawer o weithiau dros y blynyddoedd ac mae'n braf bob amser i grwydro o gwmpas y lonydd a'r strydoedd, edmygu'r tai Sioraidd ac anadlu awyr y môr ar y traeth - ar wahan pan mae goromod o bobl yn heidio yna dros yr haf! Er gwaetha'r oerfel a gwynt chwerw, mwynheuon ni bicnic yn yr hen harbwr lle roedd cychod lliwgar yn gorffwys a gwylanod hy yn meiddio dod yn agos at unrhyw siawns o friwion melys.

Roedd paratodau yn parhau mewn siopau annibynnol ac amrywiol yn Arberth ar gyfer eu hagogiad yr wythnos ganlynlol. Tref bert yw Arberth gyda neuadd dref a thŵr cloch sydd yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif. Mae'r sglodion gyda chaws yn arbennig o dda o siop yna hefyd!

Y BRIFDDINAS

Cyrhaeddod ni Gaerdydd fel 'country bumpkins' yn syllu lan ar yr adeiladau tal a gweld y prysurdeb aml-ddiwylliannol o'n cwmpas ar ôl taith ar y trê'n a oedd yn wahanol iawn i ni o gymharu â bod yn gaeth gartref neu'n mynd yn lleol yn y car. Ro'n i'n arfer defnyddio'r trê'n yn aml pan o'n i'n fyfyrwraig ac yn fy ugeiniau ac roedd y teimlad o eistedd yn y sedd a syllu trwy'r ffenestr i weld tai neu gaeau'n gwibio heibio yn hypnotig ac ymlaciol.

Aethon ni o gwmpas canol y ddinas i siopa, a oedd yn antur! Roedd fy mab sydd yn ei arddegau, wrth ei fodd. Roedd e'n rheoli wrth gwrs, felly siopau chwaraeon, esgidiau a losin oedd ar yr agenda!

Cerddon ni drwy Parc Bute wedyn lle roedd cymaint o bobl o bob math o hil a maint yn gorwedd ar y glaswellt neu'n crwydro ymhlith y blodau o dan yr haul. Beth mae carcharorion yn teimlo pan maen nhw'n cael eu rhyddhau rhag llwydni'r carchar? Ydyn nhw'n gweld y byd mewn ffordd hollol newydd fel ffilm chwedegau *psychedellic*? Efallai ein bod ni wedi dysgu sut i werthfawrogi'r pethau mwyaf syml ar ôl y cyfnod clo. Roedd eistedd yn yr ardd gyda theulu yn Nhreganna mor dda hefyd.

BYWYD AR-LEIN

Mae'r normalrwydd newydd wedi bod yn parhau gyda'm dosbarthiadau a chlybiau dysgwyr. Mae cymunedau – weithiau yn rhyngwladol – wedi'u ffurfio sydd yn o fudd i diwtoriaid a dysgwyr ac mae nifer sylweddol o weithgareddau'n amlwg yn ardal Bae Abertawe fel ardaloedd

Dysgu Cymraeg eraill.

'Dyn ni, fel canolfan genedlaethol, wedi cydweithio gydag Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ffurfio fersiwn ar-lein o'r Wyl Ar Lafar i ddysgwyr sydd yn digwydd yn safleoedd yr Amgueddfa. Eleni roedd fideos am lefydd fel Castell Penrhyn a Chastell y Waun (Chirk Castle) yn cynnwys teithiau rhithiol. Roedd y siaradwraig yn ddysgwraig a ddysgais i ar ddechrau'r cyfnod clo ac mae ei dawn ieithyddol yn amlwg. Hoffwn i weld y safleoedd yna dros yr haf. Rhaid imi ychwanegu nhw at fy rhestr wneud (*to do list*) sydd yn tyfu drwy'r amser.

Mae holiadur wedi dangos bod tua 60 y cant o'n dysgwyr ni eisiau parhau gyda chyfuniad o wersi ar-lein ac wyneb yn wyneb y flwyddyn academaidd nesaf a dyna fydd e siwr o fod. Byddwn i'n hapus i gario ymlaen yn y ffordd yna hefyd.

NEWYDDION

'Dw i mor falch bod y rheithgor wedi ffeindio'r cyn-heddwas yn yr Unol Daleithau'n euog o lofruddiaeth George Floyd. Dylai'r broses o gael gwared ar blismyn hiliol, peryglus neu dreisgar barhau o ddifri yno, fel mae marwolaethau eraill ers yr un Floyd yn dangos. Gobeithio bydd newid yn dod gyda'r Arlywydd Biden wrth y llyw ac nid Trump, a'r mudiad Black Lives Matter yn bodoli dros y byd i gyd.

Bydd etholiad yn y Senedd yn digwydd ar Fai y 6ed a bydd cyfle i bobl yng Nghymru i ddewis newid go iawn i ni yng Nghymru, sydd yn cynnig gobaiith am ein dyfodol yn dilyn blwyddyn unigryw ac anodd dros ben.

IDIOM

Yr idiom y tro hwn yw: Mae pont i groesi pob anhawster
(*There is a bridge to cross every difficulty neu every problem can be tackled*)

CYDYMDEIMLAD

ELERI WYN LLEWELYN

Dymuna Kay a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd yn dilyn marwolaeth ei merch Eleri Wyn Llewelyn, megis galwadau ffôn, teyrnged yn mis Ebrill, cardiau, blodau a rhoddion i'r Uned Cemotherapi yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae'r cyfanswm mor belled dros £1,600 o bunnoedd ac yn cynyddu yn ddyddiol. Diolch yn fawr iawn.

Kay Jones

LINDEN EVANS

Gyda thristwch mawr clywyd y newyddion blin fod Mr Linden Evans wedi ymadael â ni. I'r sawl ohonom a gafodd y fraint o'i 'nabod fe gofiwn amdano fel athro cydwybodol ac ymroddedig yn ysgolion cyfun Ystalyfera a Gŵyr.

Fe gafodd Linden argraff ddofn ar bawb a ddaeth i gysylltiad ag ef, boed yn athrawon, disgyblion neu'n rhieni. Person hynaws ac addfwyn oedd ac wrth ei fodd yn addysgu ac ysbrydoli disgyblion. Coffa da amdano a mawr yw ein cydymdeimlad â Yolanda a'r cysylltiadau teuluol yn eu hiraeth ar ôl un oedd mor annwyl yn eu golwg.

D.G.H.

Ariennir *Llais* yn
rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

CWMTAWE 100 MLYNEDD YN ÔL MAI 1917 • Dewi Lewis

CLYDACH

Cyhuddwyd George Highley o ddwygd tin yn llawn olew paraffin o waith Mond Nickel, Clydach. Roedd yr heddwes P.C. Thomas wrth ei waith am 10 o gloch y nos ar 9 Mai pan welodd fachgen ifanc yn dyfod allan o'r gwaith yn edrych yn *bulky*. Gofynnodd i'r bachgen os oedd ganddo unrhywbeth i guddio. Atebodd y bachgen 'Dim' ond yn dilyn archwiliad daeth yr heddwes o hyd i'r tin paraffin a choed tân.

GODRE' GRAIG

Cyhuddwyd dau fachgen ifanc o Odre'graig oedd yn gweithio yng ngwaith glo Tarreni o ddwygd glo, sef eiddo y South Wales Primrose Colliery Co., Ltd. Gorfodwyd i'w rhieni dalu dirwy o £1 yr un.

GWAUNCAEGURWEN

Cyhuddwyd David Roberts a John Roberts (gofaint), a T. S. Edmunds (plastrwr), o Wauncaegurwen o absenoldeb yn unol â'r Military Service Act. Yn erlyn y tri roedd Capt. Harold Williams ar ran y Gwasanaethau Milwrol. Yn ôl y dystiolaeth, roedd Ray Edmunds yn dweud ei fod yn gwrthwynebu militarïaeth ymhob ffurf ac na allai fod yn greulon i'w gyd-ddyn, ddim hyd yn oed Almaenwr! Dywedodd ei fod eisiau helpu ei gyd-weithwyr a'i fod yn gwrthwynebu llofruddio neu ladd ei gydweithwyr yn yr Almaen neu unrhyw le arall. Cafodd y tri ddirwy o 40 swllt.

CAERSALEM, YSTALYFERA

Yn ddiweddar, collodd y frawdoliaeth un o'i hen swyddogion trwy farwolaeth, sef y brawd David Davies, Heol Siôn Owen. Nid oes yn aros yn awr ond un o'r hen ddiaconiaid, gan fod angeu wedi symud chwech yn y blymyddoedd diweddar hyn. Llawenydd, serch hynny, yw canfod y meibion yn dyfod yn lle'r tadau.

RHYD-Y-FRO

Mae'n debyg fod tri phâr o geffylau wedi myned allan i aredig yn fferm *Rhyd-y-fro* ar ddydd Sul ar ychydig wythnosau yn ôl, a dyna lle fuodd yn y gymydogoeth; mae'n debyg i dorf fyned i'r cae lle'r oeddent yn aredig gan fygwth na fyddent yn rhoddi fyny, a'r canlyniad oedd i'r ceffylau gael myned yn rhydd. Yn ôl pob hanes y rhai blaenaf a phenaf i wneyd y mwstwr oedd y rhai mwyaf di-les a diffwrth mewn cysylltiad â gwaith Dydd yr Arglwydd.

RHOS

Blin ydyw cofnodi marw cynnar ein chwaer Catherine Hawkins, merch Mr. a Mrs. Dd. B. Hawkins, un o berchnogion Hen Lofa'r Primrose. Bu farw Mai 10 1917 yn 23 mlwydd oed, wedi hir ddihoeni. Ffyddlon fu er yn blentyn gyda holl 'gynulladau'r Saint,' yn enwedig yr Ysgol Sul. Daeth tyrfa luosog ynghyd prynhawn Mawrth 15ed i gludo'r marwol ohoni i Fynwent Alltwn, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. J. Rees a Dd. Jenkins (Urbanus). Yr oedd ei harch yn orchuddiedig â blodau.

GLAIS

Nid ydym yn hoffi siarad amdanom ein hunain, ac ni fyddai dim mor boenus i ni ag ymfrostio yn yr hyn a wnawn, ond yn y gobaith y gallai hynny fod yn symbyliad i eraill, anturiwn ddweyd fod ym mhentref bach y *Glais* yn ystod y deng mlynedd yr ydym wedi bod yno rai cannoedd, bum cant dyweder, o lyfrau Cymraeg wedi mynd i aelwydydd, lle nad aethai o bosibl ddwsin pe buasai yno lawer un yn ein lle. Gwyddom fod yno bobl ieuainc a phlant yn mwynhau ac yn hoffi y llyfrau a gawsant.

Pregeth Bum Munud

Aeth Gŵyl y Pasg heibio am flwyddyn arall, ond bydd ei neges yn dal i'n syfrdanu a'n gwefreiddio am amser hir.

Mae Mathew, Marc a Luc yn cofnodi'r digwyddiadau mawr am lesu'n cael ei groeshoelio a'i roi i fedd a dod 'nôl yn fyw o'r un safbwynt, heb fawr o wahaniaeth rhyngddynt, o ran ffeithiau a adroddir wrthym.

Yn amlwg mae pethau'n wahanol yn Efengyl loan, gan fod yr awdur yn ddiwinydd o'r radd flaenaf ac yn meddu ar feddwl craff a threiddgar. Yn y Bedwaredd Efengyl sy'n dwyn ei enw, mae'r awdur wedi gwneud tipyn o ddefnydd o symbolau ac mae wedi addasu'r ffeithiau i raddau sy'n ymwneud â bywyd a gweinidogaeth lesu, at ei bwrpas ei hun.

Mae pennod 21 yn Efengyl loan yn enghraifft wych o hyn. Dyma fel mae'r stori'n darllen: Roedd rhai o'r disgyblion wedi dychwelyd i Galilea ac wedi ailgydio yn eu gwaith fel pysgotwyr. Wedi bod wrthi trwy'r nos, nid oeddent wedi dal yr un pysgodyn. Ymddangosodd lesu ar y lan a'u hannog i fentro unwaith eto. Gwnaethant felly a'r tro yma, roeddent wedi dal 153 o bysgod braf. Erbyn iddynt gyrraedd y lan roedd lesu wedi paratoi brecwast iddynt. Yn ystod y pryd bwyd gofynnodd lesu deirgwaith i Pedr a oedd yn ei garu. Ateb Pedr bob tro oedd: 'Ydwyf Arglwydd, fe wyddost ti fy mod yn dy garu di.'

Wrth i ni roi sylw i ambell adnod yn y bennod, cawn gipolwg ar fawredd meddwl loan yr Efengyllydd. Adnod 11: '... a thynnu'r rhwyd i'r lan yn llawn o bysgod braf, cant pum deg a thri ohonynt.' Mae'n debyg bod 153 o wahanol rywogaethau o bysgod yn y llyn. Yr awgrym yw bod un o bob math wedi ei ddal yn y rhwyd - 'ac er bod cymaint, ni thorodd y rhwyd.' Mae lle i bawb yn Nheyrnas Dduw ac nid oes perygl i neb gael ei wrthod a'i droi ymaith.

Ac eto, roedd loan efallai wedi gwneud defnydd pwrpasol iawn o'r rhif 153 er mwyn dangos fod lesu wedi *cyflawni* ei weinidogaeth mewn modd *perffaith* a hynny gan fod y rhif 10 yn symbol o gyflawniad, ac mae rhif 7 yn symbol o berffeithrwydd. Cyfanswm y ddau yma yw 17 ac o adio'r holl rifau o 1 - 17 y cyfanswm yw 153. Yn y goleuni hwn roedd awdur y Bedwaredd Efengyl yn gweld pethau, roedd lesu wedi cario'r dydd. Roedd wedi cyflawn ewyllys ei Dad mewn modd perffaith. Pan fod geiriau yn methu, mae symbolau yn achub y blaen, gan eu bod yn mynegi gwirioneddau sydd tu hwnt i ddeall meidrol. Wedi'r cyfan mae pob crefydd, yn ei hanfod, yn symbolig.

Adnod 12: 'Dewch', meddai lesu wrthynt, 'cymerwch frecwast.'

Yma cawn ragolwg o'r wledd ar lan brydferth draw, sydd yn ymaros pawb pan ddaw ein tymor daearol i ben - 'ac fe ddaw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin i eistedd gydag Abraham, Isaac a Jacob yn nheyrnas nefoedd.' Gwledd yn wir.

Adnod 17: 'Gofynnodd iddo'r drydedd waith: Simon fab loan, a wyt yn fy ngharu?'

Holwyd Pedr dair gwaith am ei fod wedi gwadu lesu dair o weithiau. Serch hynny, ac er gwaethaf ei ffaelecteddau a'n gwendidau ninnau, rydym, bawb ohonom yn wrthrychau cariad Duw ac nid oes dim byd all ein torri ni bant o'r cariad hwnnw: 'Mae hyd a lled ei gariad ef uwch nef y nef yn llifo, a dyfnach yw na llygredd dyn heb drai na therfyn arno.' A diolch am hynny.

A'n bod yn dychwelyd at yr adnod agoriadol a'r tri gair trawiadol: 'Ar ôl hyn.'

Sut bynnag y mae arnom, a beth bynnag yw natur ein hamgylchiadau, nid yw bywyd mwy nag amser yn sefyll yn yr unfan: 'Mae'r Brenin yn y blaen' yn mynd rhagom i ba bynnag gyfeiriad y bydd bywyd yn ein tywys. Y fath gysur ac ysbrydoliaeth. Awn ninnau hefyd tua'r lan gan wybod nad yw ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd.

YNYS-WEN

Wel shwd y'ch chi gyd mis yma? Gobeithio eich bod chi gyd yn mwynhau'r tywydd braf a lliwiaw'r gwanwyn!

Dymunwn wellhad buan i Alun Wyn Jeffreys, sydd wedi torri un o'i asennau; gobeithio y clywn ni chi'n canu eto cyn bo hir.

Mae sawl peth o ddi-ddordeb o gwmpas Aber-craf, Ynys-wen, Pen-y-cae a Choelbren mis yma.

YNYS-WEN

Mae yna siop newydd yn Ynys-wen: 'Artist and Makers Emporium'. Agorodd y siop hon ar 12 Ebrill ac maen nhw wedi bod yn llwyddiannus yn barod. Mae eitemau'r siop yn cynnwys cynhyrchion crefftwyr a chelfwyr talentog lleol. Mae cymaint o bethau yna i ddenu pob math o gwsmer: darluniau, printiau, cardiau, printiau o luniau yn ogystal â gemwaith o arian, copr, gwydr a chlai. Mae yna waith serameg, pren, celf gwydr a llawer mwy o grefftau ac anrhegion unigryw na welwch chi yn unrhywle arall. Eu dywediad nhw yw: 'pobl leol yn cefnogi ei gilydd a'r gymuned'. Lleolir y siop ar yr A4067, Heol Aberhonddu, Ynys-wen, SA9 1YR. Os ydych chi'n gyfarwydd â'r ardal, maen nhw drws nesa i Ganolfan Ceir Tawe (*Tawe Car Centre*). Pob lwc i'r siop yn y dyfodol.



PENYCAE

Wrth i reolau'r clo mawr gael eu llacio, bydd llawer o fusnesau yn aildechrau. Bydd ogofâu Dan yr Ogof yn un ohonynt. O 17 Mai gall ymwelwyr fynd i fwynhau'r atyniadau a'r deinosoriaid! Bydd eu safle gwerysyla a'u gwesty ar agor hefyd, ond mae'n angenrheidiol bwcio ymlaen llaw ar 01639 730284.

ABERCRAF



Y tro diwethaf, soniais i am barêd y Pasg a'r te prynhawn; wel dyma rai lluniau. Da iawn i 'Abercrae Happy Helpers' sydd wedi creu awyrgylch gymunedol hyfryd wrth iddynt ddathlu rhannau o'r flwyddyn pan fydd pobl yn gweld eisiau cwmni a thipyn bach o hwyl a charedigrwydd yn y gymuned.

Bydd 1 Mai yn ddigwyddiad arbennig hefyd, wrth iddynt ddathlu Gŵyl Banc mis Mai. Bydd yna roliau cig moch a crêpes ar gael yn Neuadd Les Aber-craf, o 10 y bore ymlaen

ar Ddydd Sadwrn 1 Mai. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ambiwllans Awyr Cymru, ac am fanylion pellach cysylltwch â Lorraine ar 01639 730655; Natalie ar 07725524237; Rebecca ar 07426295601 neu Eirwen ar 07938238211. Cewch weld lluniau yn y rhyfyn nesaf.

COELBREN

Llongyfarchiadau i Sienna Norton a'i thîm, am fod yn bencampwyr ym Mhencampwriaeth y Gwanwyn. Mae'r chwirydd yn llwyddiannus dros ben mewn cystadlaethau merlota. Maent yn gweithio'n galed ac yn ymarfer yn galed i fod y gorau yn eu cystadlaethau. Da iawn ferched, rydym mor falch ohonoch chi.

Mae siop TLT Coelbren yn llwyddiannus hefyd, gyda chynigion arbennig bron bob dydd! Mae'n hyfryd cael siop leol ar stепен y drws a'r prisiau mor rhesymol!

Rhywbeth arall sydd yn llythrennol ar y gorwel i bobl Aber-craf, Coelbren, Caehopcyn, Pen-rhos ac Ystradgynlais yw'r gwaith sy'n mynd ymlaen i lenwi twll mawr y glo brig ar safle Nant Helen. Fe welwch chi bod y mynyddoedd o bridd yn lleihau wrth i'r peiriannau enfawr symud y tir yn ôl mewn i'r twll sydd yna 'nawr. Ar ôl i bopeth setlo, dyna pryd bydd adeiladu'r Ganolfan Profi Trenau Trydanol yn dechrau.

Hoffwn i ddiolch i bawb am fod mor gefnogol i Bapur Bro y *Llais*. Diolch i'r bobl sy'n helpu drwy fy atgoffa o newyddion yr ardal.

Rwyf mor falch bod cymaint o bobl wedi cael eu brechlyn, a diolch i staff y GIG sydd wrthi yn rhoi'r brechlyn i ni gyd. Mae rhaid cadw'n ddiogel o hyd, cofiwch; nid yw'r salwch wedi diflannu eto, a chofiwch wisgo eich gorchudd wyneb, golchwch eich dwylo neu ddefnyddiwch y jel alcohol. Cadwch yn ddiogel!



YSTRADGYNLAIS

PONT Y TEDDY BEAR

Fe ddes i ar draws ymwelydd yn ddiweddar oedd yn sefyll ar ben y bont yma ac yn sylwi ar yr Afon Gïedd yn llifo oddi tani.

Fe ofynnodd beth oedd enw'r bont ac yn wir i chi, ar ôl ei ateb, edrychodd arno i yn syn. I drigolion y pentref mae Pont y Teddy Bear yn rhan hanfodol o'r gymuned ac roedd canlyniad Storom



Dennis yn Chwefror 2020 wedi sicrhau bod aelodau Sardis, Aion ac eraill yn gorfod ail feddwl y ffordd roeddynt yn teithio i bentref Cwm yr Arglwydd, neu Cwmgïedd i chi a fi. Roedd y niwed i fframwaith y bont yn boen i'r llygaid ac felly fe ddechreuodd y gwaith o ail adeiladu yn Awst 2020. Erbyn Mis Ebrill eleni, roedd y gwaith wedi gorffen ac mae gwagedd y capeli cyfagos yn gweiddi a chanu mewn llawenydd.

Ond pam y gelwir hi yn Bont y Teddy Bear? Yn ôl Cymdeithas Treftadaeth ac Iaith y pentref mae yna ddau ateb i'r cwestiwn. Yn gyntaf, mae'r enw yn cyfeirio at y ffordd roedd rhai o'r pentrefwyr yn cerdded yn sigledig ar draws y bont yn dilyn efallai noson hwyr yn y tafarnau cyfagos. Yn ail, mae'r enw yn deillio o'r anifail rhyfedd, sef y Teddy Bear, oedd yn arddangos mewn ffenestr siop gerllaw'r bont. Ewch am dro ac edmygwch y saernïaeth ond ar yr un pryd gofynnwch pam nad oedd yr adeiladwyr wedi cael y gorchymyn i orffen y gwaith yn ddigonol drwy roi cot o baent i'r hen bont hynafol yma? Trueni.

GORFOLEDDU

'Dw i erioed wedi gweld cymaint o bobol yn gorfoleddu yn ddiweddar wrth i ni droedio drwy'r pentref. Rhieni ifanc yn chwifio breichiau yn yr awyr a gwragedd yn bennaf yn gwenu o glust i glust. Beth yw'r rheswm tu ôl i'r hapusrwydd a'r gorfoledd yma rwy'n eich clywed yn gofyn? Mae'r ateb yn eithaf syml. Na, nid oherwydd ein bod medru teithio i Gaerdybi neu Aberaeron, ond yn hytrach bod ein plant wedi ail ddechrau yn yr ysgol a bod siopau trin gwallt wedi ail agor. 'Dw i erioed wedi gweld fy ngwraig a'i ffrindiau mewn siwd hwyl yn prancio fel wyn bach y gwanwyn. Yn ôl yr hyn rwy'n clywed maen nhw yn barod wedi archebu slot ar gyfer y mis nesaf. Y gost? Pa gost! Ar bwnc mwy cyfrifol ystyriwch hyn. Mae'r pandemig yma wedi difetha bywydau a bywiolaethau di-rif, ond y mae'n debyg mai y gost fwyaf parhaol fydd i gyfleoedd hir dymor ein plant a'n pobol ifanc. Hyd yn oed pan fydd heulwen ar y gorwel, fe fydd y niwed i'w haddysg, yn enwedig y rhai difreintiedig, yn anodd i'w atgyfodi.

YR YOGITS

Os oes diddordeb gyda chi yn y gêm, ie, y gêm, felly mae croeso mawr i chi ymuno â chlwb 'Yr Yogits' sy'n ymarfer ar gae Ysgol Maesydderwen bob Nos Iau. (Gyda seibiant wrth gwrs yn ystod y cyfnod clo). Sefydlwyd y clwb yn 2017 a'r amcan yw hyrwyddo iechyd corff a meddwl yr aelodau. Ar y dechrau dim ond 5 oedd wedi ymaelodi ond erbyn heddi mae dros 50 o aelodau yn perthyn i'r gymdeithas. Heblaw am ddatblygu sgiliau 7 bob ochr, mae pwyslais priodol yn cael ei roi ar gymdeithasu a thrafod materion personol megis diffyg hyder neu iselder ysbryd. Felly, os ydych dros 35 oed ac yn hoffi rhedeg, pasio a chwerrhin, ymunwch â nhw. Mae'r gymdeithas hon yn enghraifft dda o bwysigrwydd a chyfraniad cymuned glôs a gofalgar.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Margaret Davies, Heol Aberhonddu, ar gyrraedd oedran nodedig yn 90 oed. Gwraig ei milltir sgwâr yw Margaret er bod ei gwreiddiau yn ddwfn yn y Rhondda. Fel sawl un o'i chyfoedion bu Margaret yn gweithio am gyfnod hir yn y Tic Toc yn ogystal â mynychu Capel y Tabernacl lle'r oedd yn aelod fyddlon. Mae gan Margaret ddwy ferch, sef Caroline a Bethan, ac rwy'n siŵr fe fydd y merched, yn ogystal â llu o'i ffrindiau, yn dymuno pen-blwydd hapus a dymuniadau gorau iddi.

ELERI KING

Syfrdanwyd y pentref yn ddiweddar gyda'r newyddion trist bod Eleri King, Parc Richmond, wedi ffarwelio â ni mor ddisymwth ac annisgwyl. Rydym yn cofio am ei gŵr Wayne a'r meibion Ioan a Steffan a'i briod Sarah. Roedd Eleri hefyd yn fam-gu gariadus i Caden, Hallie ac lyla, ac yn ferch gwerthfawr i Una a'r diweddar Leyshon. Roedd Eleri yn adnabyddus yn yr ardal, ac yn fawr ei pharch yng ngolwg pawb a gafodd y faint o'i hadnabod, yn arbennig gan y sawl a ddaeth i gysylltiad â hi yn ei gwaith fel nyrs arbenigol. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl yn eu golwg.

NICOLA HOWELL

Blin iawn oedd gennym glywed fod Nicola Howell wedi ymadael â ni. Roedd Nicola yn ferch i Joan a'r diweddar Viv ac yn chwaraewr annwyl i Mandy, Ian, Fay a Lyn. Roedd hefyd yn fodryb ac yn hen fodryb i'w nithoedd a'i neiaint. Fe gofiwn amdani fel un oedd yn gwneud gwaith gwirfoddol yn Ysbyty Ystrad ac yn siop drin gwallt Yvonne yn y Gurnos. Heblaw hyn, roedd Nicola wrth ei bodd yn sgwrsio gyda'i ffrindiau dros gwpaned o goffi yn siopau'r pentref. Mae'r holl ardal yn cydymdeimlo yn ddwys iawn gyda'i theulu.

JENKING MORGAN

Gyda'r tristwch pennaf fe glywsom fod Jenking Morgan, Yr Ynys, wedi ffarwelio â ni. Roedd Jenking yn ŵr ffyddlon i'r diweddar Euryl Ann, ac yn dad annwyl i Cath, Alex a Jim. Roedd Jenking hefyd yn dad-yng-nghyfraith parchus i Richard, Katie a'r diweddar Helen. Fe gofiwn amdano hefyd fel tad-cu

a hen dad-cu hoffus. Roedd Jenking yn perthyn i deulu oedd a chysylltiad cryf â Chlwb Rygbi Ystrad, a bu yn chwaraewr dawnus pan yn ifancach. Mawr yw ein cydymdeimlad gyda'r teulu annwyl.

GWASANAETHAU'R PASG

Da yw cofnodi bod capeli Tawe, Nedd a Chrai wedi cwrdd yn rheolaidd yn ystod y cyfnod clo. Mae'r enwadau wedi ymgynnull ar-lein a hefyd drwy Zoom ac mae'r gwasanaethau wedi cynnwys cwrdd gweddi wythnosol yn ogystal ag astudiaeth Feiblaidd, ac wrth gwrs gwasanaeth ar y Sul. Dros y Pasg da yw cofnodi bod trawsdorïad iach o bobl ifanc wedi ymuno yn y



gwasanaethau ac felly wedi chwarae rhan allweddol wrth iddynt drosglwyddo neges arbennig y Pasg.

Roedd y bobl ifanc yn cynrychioli capeli megis Brynlllynfell, Cwmlllynfell, a Soar Pontardawe a chawsom eitemau unigol oddiwrth Gruff Watkins a Harri Morgan. Diolchwn yn arbennig i Rhodri Phillips oedd wedi trefnu'r gwasanaethau a hefyd gyfraniadau difesur Emyr Jones, Ann Finch ac Eifion Williams. Rydyn wedi bod yn rhan o flwyddyn o anobaith a thristwch a chofiwn yn arbennig y teuluoedd niferus sydd wedi dioddef. Mae ein capeli a'n heglwysi wedi bod ar gau, ond gyda dyfodiad y brechlyn mae haul ar fryn ac edrychwn ymlaen yn ffyddiog gyda gobaith am ddyfodol llewyrchus yn llawn llawenydd.

GWASANAETHAU MIS MAI YN SARDIS

Os bydd popeth yn ffafriol o ran Cofid-19 gobeithir cynnal oedfa yn Sardis ar brynawn y Sulgwyn, 23 Mai am 2.00 o'r gloch.

CWIS Y MIS:

1. Sut y cafodd 'Heol Oddfellow' y fath enw?
2. Ym mha flwyddyn agorwyd y Swyddfa Bost ym mhentref Cwmgiedd?
3. Ble ddown ni ar draws fframwaith 'Y Machine'?

ATEBION MIS MAWRTH

1. 'Y Silent Village' oedd y ffilm.
2. Nentydd ydynt sy'n bwydo'r Afon Gïedd.
3. 8 chwaraewr rhyngwladol sy'n gysylltiedig â Chlwb y Gleision.

YSTALYFERA

DYMUNO'N DDA I MARIONNE THOMAS

Mae ffrindiau lu Marionne, ymhobman, wedi bod yn meddwl dipyn amdani yn ddiweddar gan nad yw hi wedi bod yn yr hwyliau gorau ers tro. Yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty, mae Marionne yn ôl ar ei haelwyd glyd yn y Cwm. Erbyn hyn mae'n teimlo'n well o lawer ac mae hynny'n newyddion da. Pob dymuniad da iddi.

RHYS, DAFYDD GLYN, RONA A RHIAN YN DATHLU EU PEN-BLWYDD

Mae cael pen-blwydd, yn enwedig pan yn ifanc yn achlysur hapus iawn, ond wedi cyrraedd rhyw oedran arbennig, mae'r achlysur yn colli ychydig o'i wefr. Serch hynny, a gyda threigladau amser, nid yw rhai cyfeillion yn ein plith yn heneiddio wrth fynd yn hŷn. Mae honno'n gyfrinach y gŵyr Rona, Rhian, Rhys a Dafydd Glyn amdani. Mae'r pedwar ohonynt wedi datflu eu pen-blwydd yn ddiweddar ac mae eu cyfeillion, yn enwedig yn y Wern, yn meddwl y byd ohonynt ac yn dymuno blynyddoedd lawer eto o nerth ac iechyd.

GWELD LLAIS BETHAN

Mae rhaglen gwis newydd *I can see your voice*, wedi dechrau ar nos Sadwrn ar BBC1. Cafwyd y rhaglen gyntaf ar Sadwrn 10 Ebrill ac yn perfformio roedd Bethan Wyn Davies, cantores broffesiynol sy'n byw yn Solihull.

O ddiddordeb i ni yn y Wern, Bethan yw merch Colin a Siân Davies, ac felly mae'n wyres i'r ddiweddar Jean (Jeffreys) a

Veronica (Davies). Roedd perfformiad Bethan, ar y rhaglen, yn gwbl wfreiddiol. Ardderchog yn wir.

Yn Solihull hefyd mae nai a nith Bethan, sef Elvis a Delilah, plant Brionny a Ben. Mae'r ddau ohonynt yn llawn bywyd a'r newyddion diweddaraf am Elvis, sy'n dair oed, yw ei fod yn dangos diddordeb mewn rygbi ac wedi dechrau ymarfer gyda thîm 'totiaid' Solihull. Cofiwch yr enw, chwi ddewiswyr tîm rygbi Cymru - mae Elvis yn enw ar gyfer y dyfodol!



O'R MAYALS I HOLT, YN Y GOGLEDD

Ar ôl byw yn y Mayals ers blyneddau mae Ann Christine a Colin wedi penderfynu symud i Ogledd Cymru, er mwyn bod yn agosach at ei brawd Handel a'i deulu. Am resymau digon amlwg roedd ffarwelio ag Abertawe yn dipyn o benderfyniad i'w wneud ac rydym yn ffyddiog y bydd y ddau ohonynt yn ymgartrefu'n dda ac yn gwneud ffrindiau newydd yn Holt, sydd yn rhan hyfryd o'r wlad. Does dim amheuaeth, bydd Ann Christine a Colin yn parhau â'r diddordeb mawr sydd ganddi mewn canu, trwy ymuno ag ambell gôr yn yr ardal honno. Pob dymuniad da iddynt a chofion cynnes wrth bawb yn y Wern.

GWASANAETHAU MIS MAI YN Y WERN

Gan ystyried popeth, y bwriad yw cynnal oedfa yn y Wern ar fore'r Sulgwyn, sef 23 Mai am 10.30 o'r gloch.

PARC ALLT-Y-GRUG

Mae Cyngor Cymuned Ystalyfera yn falch o gyhoeddi bod eu cais am gyllid gan dîm Plant a Theuluoedd NPTCBC i adnewyddu offer chwarae ym Mharc Allt-y-grug, Ystalyfera wedi'i gymeradwyo! Derbyniwyd £20,000 o gyllid ar gyfer y prosiect a fydd yn cynnwys sêd siglo, basged gynhwysol newydd, bowlen sbinio gynhwysol, llithren a llwybr antur i gyd wedi eu gwneud o bren. Cyfanswm cost y prosiect hwn yw £24,999 (gyda'r gweddill o £4,999 yn dod o gyllideb Cyngor Cymuned Ystalyfera). Gobeithiwn y byddwch chi a'ch plant yn mwynhau'r parc ar ei newydd wedd.



Parc Allt-y-grug ar ei newydd wedd.

Y BANC BWYD

Mae'r banc bwyd yn dal yn brysur gyda nifer o bobl yn gorfod dod atom am y tro cyntaf yn eu hanes. Diolchwn yn fawr i unigolion a theuluoedd yn yr ardal sy'n parhau i gefnogi.

Cafwyd rhoddion caredig gan nifer fawr o bobl gan gynnwys wyau Pasg i'w rhannu gyda'n defnyddwyr. Diolch hefyd i gwmni Scott sy'n adeiladu ar safle Ysgol Gymraeg Ystalyfera am eu haelioni yn ddiweddar. Mae siop anifeiliaid Penny's yn y pentref yn dal i'n cefnogi gyda rhoddion cyson o fwyd cwn. Mae'r gefnogaeth yma gan y gymuned yn codi calon y gwirfoddolwyr i gyd wrth ddarparu parseli bwyd i'n defnyddwyr.

CWMLLYNFELL

CLEIFION

Ar ôl treulio mis yn yr ysbyty Mae yn dda i ddeall fod Mr Calfin Mitchel nôl adre yn Ystradowen. Gwellhad buan iddo.

MARWOLAETH

Yn annisgwyl iawn bu farw Mr Tal Owen, Heol y Coedcae. Roedd yn adnabyddus iawn yn y pentre, yn mwynhau tro bach yn ddyddiol ar ei scwter trydan a chael sgwrs gyda phawb. Cofiw am Pamela a Delyth a'r teulu oll yn eu hiraeth.

Y LLYN

Mae cloddio'r gwaith glo brig ar dir Brynlefrith wedi dod i ben. Bydd dim ragor o danio a llwch. Mae'r tir yn cael ei adfer a chyn hir bydd modd mynd am dro o amgylch y llyn a grewyd yno. Dyma lun o'r safle, y Mynydd Du ac Ochr y Waun yn y cefndir.



YR ALLT-WEN

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad buan iawn i Rhydwen James sydd wedi torri asgwrn bach yn ei phenelin a datgysylltu ei hysgwydd.

PRIODAS

Er mawr siom iddynt fethu â priodi y llynedd, priododd Emily Evans a Declan Bale ar 10 Ebrill yng Nghwesty Coed y Mwstwr. Mae Emily yn ferch i Eiry a Leslie Evans, Lôn Hir ac yn wyres i Catherine Llewelyn, Bryn Llewelyn a Pamela Evans, Heol Gwyn. Mae Declan yn fab i Eleanor Williams, Western Road a Geraint Bale, Hafan Brynheulog, ac yn wŷr i Mair Bale sydd yn awr yng Nghartref Cwrt Enfys.

Mae Emily yn nyrw ardal yn Abertawe a Declan yn aelod o staff rheoli cwmni Wall Colmonoy. Yn anffodus oherwydd y cyfyngiadau dim ond 19 oedd yn cael mynychu'r briodas a nid oedd brechwast traddodiadol. Ar hyn o bryd maent yn byw yn Rhyd-y-fro ond cyn bo hir byddant yn symud i'r Rhos. Pob bendith i'r ddau ar ddechrau eu bywyd priodasol.

CYDYMDEIMLAD

Roedd Megan Lewis, Lôn Hir a fu farw yn 92 mlwydd oed yn wreiddiol o Ogledd Sir Benfro o phentref Trewyddel (*Moylgrove*). Addysgwyd hi yn Ysgol Gynradd y Pentrefwyr ac Ysgol Ramadeg Aberteifi. Ymunodd â'r banc gan weithio yn

Abergwaun ac Aberteifi ac wedyn yn Llundain. Cyfarfu â Gwyndaf yno, yntau yn hyfforddi i fod yn ddeintydd yn Ysbyty Guy's.

Roedd cymdeithas Gymraeg gref yn Llundain yr adeg honno. Byddent yn mynd i Gapeli Castle Street a King's Cross, a phriododd y ddau yng Nghapel Bethel, Trewyddel, gan ddechrau ar eu bywyd priodasol yn Abertawe. Yn a symudon nhw i Bontardawe lle sefydlodd Gwyndaf bractis deintydd a byw yn Stryd Herbert.

Bu Megan a Gwyndaf yn aelodau ffyddlon a hael yn y Tabernacl, Pontardawe. Cadwodd Megan dafodiaeth y Ddyfydeg: dywedai 'pentigili' a 'Wes Wes' yn hollol naturiol er iddi dreulio oes yng Nghwmtawe. Roedd gan bawb o'i chynabod barch mawr i Megan. Roedd y diweddar Gwenda Lockstone yn ffrind mynwesol iddi, roedd yn aelod o Ferched y Wawr ac yn Drysorydd am gyfnod. Cydymdeimlwn â Gwyndaf, y mab John a'r wyrion Elin a Rhys yn eu galar.

CYFEILLION YR ALLT-WEN YN CEFNOGI HARI KIEFT

Hoffai 'Cyfeillion yr Allt-wen yn Cefnogi Hari Kieft' ddiolch i bawb gyfrannodd i'r Raffl Pasg a gododd £638. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu sblint newydd ar gyfer Hari. Keith a Betty-Ann Jones, Clos Llwynallt sefydlodd y grŵp Cyfeillion, er mwyn cynnig cefnogaeth i Hari.

PARC BRYNMORGRUG

Roedd Cyngor Cymuned Cilybebyll wedi derbyn ceisiadau a llythyrau gan blant lleol a thrigolion yr Alltwn ar gyfer cyfleusterau chwarae i blant hŷn ym Mharc Brynmorgrug, yr Alltwn. Diolch i gyllid gan Dîm Chwarae Cyngor CNPT a Llywodraeth Cymru, fe fu'n bosibl i'r Cyngor ymateb i'r galw ac mae gan y parc bellach nifer o ddarnau o offer pren newydd. Mae'r parc yn hynod boblogaidd, ac mae'r plant wrth eu bodd gyda'r llwybr antur newydd. Mae'r offer newydd yn rhoi cyfle i blant lleol ymarfer corff, cadw'n heini ac yn iach, yn ogystal â chymdeithasu â phlant lleol eraill.



PONTARDAWE

TABERNACL PONTARDAWE

CYFLE ETO

Rydym fel aelodau yn ddiolchgar iawn i gael cyfle i groesawu pawb yn ôl i'r gwasanaethau ac i glywed yr organ yn llenwi'r lle unwaith eto a Susan wrth y llyw.

CYDYMDEIMLO

Trist iawn oedd colli ym mis Ebrill un o'n haelodau ffyddlon sef Megan Lewis, Lôn Hir, Yr Alltwn (gynt o Drewyddel, Sir Benfro). Gwraig Gwyndaf y deintydd, mam John, a mamgu annwyl Rhys ac Elin. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu hiraeth.

RHYDYFRO

MAWOLAETH

Blin oedd clywed am farwolaeth Graham William a fu'n byw am amser hir yn Rhyd-y-fro cyn symud i Gwmgfiedd. Cydymdeimlwn â Pat ei weddw, Anthony ac Adrian y meibion a'r wyrion Sean, Alex ac Adam, a'r holl berthnasau.

CAPEL Y BARAN

Rwyf yn gyson wedi aralleirio geiriau William Williams: 'Anghrediniaeth gad fi'n llonydd' i 'anwybodaeth gad fi'n llonydd'; a phwy hyna' dw i'n mynd, amla' i gyd mae hyn yn digwydd. Dros gyfnod y pandemig mor fendithiol yw y ffôn i gadw cysylltiad â theulu a chyfeillion, a hir yw'r sgwrsio. Yn aml bydda' i'n siarad â chyfaill bore oes a'r frawddeg mae'r ddau ohonom yn adrodd ac ailadrodd yw '... wyt ti'n cofio?; ac fe fydd y cyfaill yn cloi ein sgwrs gyda'r sylw: '... 'na beth hyfryd yw'r gallu i gofio'.

Un o'r pethau yr ydym yn trafod yw sut mae'r yr hen gynefin wedi newid, ac yn arbennig Mynydd y Gwair a Mynydd y Betws; dwy ardal nad oes llathed ohonynt nad yw ôl fy nhroed arnynt. Ac yma mae fy anwybodaeth yn dod i'r amlwg. Heddiw ma'r ddau fynydd yn frith o felinau gwynt sy'n cynhyrchu digon o drydan i ddeugain mil o gartrefi; hynny yw, pan eu bod yn troi. Wrth gloddio i godi'r twrbinau enfawr darganfuwyd gweddillion sy'n dangos sut oedd pobl y gorffennol yn byw a ffermio, ymladd a chladdu'r meirw. Mae ffriddoedd Mynydd y Betws yn frith o garneddau - tomenni cerrig, rhai yn eitha' sylweddol, ac roedd clwstwr o'r rhain yn ymyl yr hen gartref. Ac er fy mod wedi byw yn ei ymyl nis gwyddwn ei arwyddocâd.

Cofiaf sylwi un gwanwyn ar ddarn o'r mynydd a elwir Banc y Bryn a oedd wedi cael ei losgi, nid nepell o fferm Bryn-mawr lle bu fy hynafiaid yn amaethu. Yno roedd rhes hir o 173 carreg yn un llinell syth, hyd y gwn i yn mynd i unman. Dywedir bod archeolegwyr wedi darganfod olion yn mynd yn ôl i Oes y Cerrig a'r oes efydd wrth gloddio i godi'r melinau gwynt. Yng ngwanwyn 1977, adeg streic y pobyddion pan oedd pobl yn ymladd dros dorth o fara, darganfyddais felin arall, melin flawd (*quem*) yn dyddio'n ôl i Oes y Cerrig. Sylwi roeddwn ar adfeilion hen fwthyn unllawr a dwy ystafell fach iawn wedi bod yn adfail ers cyn cof. Roedd darn o wal o gwmpas y beili bach o flaen y bwthyn wedi syrthio wedi rhew y gaeaf, ac roedd carreg siap padell ym môn y wal. Gwyddwn ar unwaith mae meln flawd gartref oedd - lawer iawn yn hŷn na'r bethyn.

Roedd y garreg a droid gyda llaw - y 'millstone' ar goll. Mae'n garreg amrwd ond eto mae 'na gywreinder syml ynddi. Mae'r melinau bach yma yn mynd yn ôl i gyfnod yr Eifftiaid ac ymhellach, ac yn cael eu defnyddio heddiw mewn gwledydd fel Nepal. Rwyf wedi gweld ar y we y garreg falu sydd ar goll, tua maint plât cinio, ar werth am gannoedd o bunnoedd, a'r darn o'r felin garreg sydd gyda fi am tua saith mil o bunnoedd. Beth ddwedai'r dyn cyntefig a fu'n brysur lunio'r campwaith o'i werth heddiw. Ond ni ellir rhoi gwerth ar hanes. Y rhyfeddod i mi heddiw yw fy mod wedi 'ngeni a byw am flynyddoedd mewn ardal a hanes mor gyfoethog ac nis gwyddwn ddim.

Eifion Walters

HEL ATGOFION ETO

Taith fach y mis hwn. Dechreuais o Railway Terrace sef Lôn Hir erbyn hyn. Mae'r tai i gyd ar y dde ac mae un o fy atgofion am y gerddi bach, y rhandiroedd neu'r 'allotments' ar y chwith yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bron ar ben y stryd y mae agoriad



Y felin law wrth fôn wal Capel y Baran

sydd yn arwain lawr i'r llwybr beics lle'r oedd rheilffordd yr LMS o Abertawe i Frynman yn arfer â bod. Flynyddoedd yn ôl roedd clwyd yma, a dyma'r ffordd yr oedd y gweithwyr yn mynd dros bont i waith tun Glantawe, a hefyd yr oedd pobl yn defnyddio'r ffordd fel llwybr tarw neu *short cut* i fynd draw i Ynysmeudw, a'r glwyd yn cael ei chloi pob dydd Nadolig i ddangos taw nid llwybr cyhoeddus ydoedd.

Ar yr dde arferiai hen ffermy Pant y Morgrug sefyll, lle'r oeddwn yn casglu berw'r dwr (*watercress*) a dyma lle adeiladwyd ffactri'r Aladin. Mae ystad o dai newydd yma'n awr a hefyd ar safle Twmpath y Morgrug, lle ganwyd yr athro Tom Jones a oedd yn Bennaeth Adran Gymraeg Aberystwyth. Mae'r lôn yn arwain ymlaen tua fferm Glyndolau ond ar ôl croesi pont, dringais lan tua chraig Gelli-nudd. Dyma ble mae rhai o'r bythynnod hyna' ac yr oeddwn arfer adnabod a chofio enwau pob un, a'u gerddi taclus yr ochr arall i'r tai. Ond cefais siom fawr wrth weld y llanast oedd wrth yr ail un, ond yr oedd rhaid mynd ymlaen. Ar ben y lôn a throi i'r dde i fan a alwyd 'yr anialwch', lle roedd yn arfer bod tyddyn, ond does dim sôn amdano yn awr.

Dyma'r ffordd yr oedd fy nhad-cu arfer mynd i waith glo Tarreni, a'i bot jam a channwyll ynddo. 'Dw i'n cofio dod yma yn blentyn gyda fy nhad ac yn sydyn fe fyddai'n diflannu ac wedyn yn dod i'r golwg ychydig yn nes ymlaen. Wrth siarad ag e flynyddoedd wedyn yn ei dostrwydd, eglurodd ei fod yn perthyn i adran gyfrinachol o'r Home Guard. Bu farw'r noson honno cyn i fi gael rhagor o wybodaeth. Ar ôl y rhyfel, daeth tri neu bedwar o fechgyn y pentre' ar draws cuddfan ar dir y plas. Bum mewn cysylltiad â mab fferm y plas, a oedd am hanes sawl un arall oedd â chysylltiad â'r hanes ond yn anffodus, roeddynt wedi marw hefyd erbyn hyn, a'r teulu heb gael gwybod dim. Un yr oeddech yn ei adnabod oedd Egryn Morgan a doedd gan ei wraig Rita ddim syniad nes ein bod wedi galw i gael peth o'i hanes! Y mae Mr Bowen yn gobeithio ysgrifennu am eu hanes rywbryd yn y dyfodol.

Wel dewch yn ôl i'r daith. Dringo eto lan ar hyd y dramffordd nes dod i hen furiau oedd yn dal drwm a weiren drwchus. Yr oedd y daith bron ar ben heblaw sgwrs ag ambell un a oedd yn awr yn byw yn yr ardal a heb wybod dim o'i hanes. Yna gwneud fy ffordd lawr tua Dan-y graig wedi mwynhau bore hyfryd

Elizabeth Jones

CRAIG CEFN PARC

LLWYDDIANT OWAIN YN YSGOL GYFUN BRYNTAWE

Mae Owain James, Heol y Fagwr, Craig-cefn-parc yn ddisgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Gyfun Bryntawe. Mewn sgwrs gydag Owain, mynegodd taw ei hoff bynciau yn yr ysgol yw Drama, Hanes a Daearyddiaeth a'i fod wrth ei fodd yn cymryd rhan mewn triathalon. Ond yn fwy nodedig o lawer yw'r ffaith taw Owain enillodd y Gadair yn Eisteddfod yr Ysgol eleni. Camp ragorol, gan ystyried pa mor ifanc ydyw.

Cafodd Owain ei gadeirio ac yn haeddiannol felly am ei ymgais i lunio stori fer yn dwyn teitl 'Gobeithion'. Mae'r gwaith yn llawn dychymyg ac yn adlewyrchu dawn ysgrifennu Owain.

Mae Owain yn fab i Nigel a Lisa ac yn frawd i Catrin. Mae ei dad-cu a'i fam-gu Graig, sef Colin a Maureen ynghyd â thad-cu John a Betty yn ymfalchïo, fel ninnau, yn ei lwyddiant ac yn edrych ymlaen at glywed llawer mwy ganddo.



CYDYMDEIMLO

Fel aelodau a chymuned rydym yn cydymdeimlo â Meriel Blewett a'i theulu, Uplands, Abertawe ar ôl marwolaeth ei gwŷ Terry ym mis Ebrill wedi cystudd hir. Mae Meriel yn gyn-aelod, yn wreiddiol o Tŷ Ucha'r Cwm, Graig Cwm, teulu y diweddar Archie a Gwyneth Rees.

PEN-BLWYDD

Llongyfarchiadau i Gareth Rees, gwr Einir, Parc Kingrosia, Clydach, ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar .Pob dymuniad da i'r dyfodol.

CWCW GYNTA'R FLWYDDYN

Diolch i gofnod ein colofnydd natur Dewi Lewis am ymweliad y gwcw ag ardal Craig-cefn-parc. Clywyd y gwcw'n y galw ar 15 Ebrill ar weundiroedd Cathelyd, ac yn ôl Gerallt Pennant ar raglen 'Galwad Cynnar' ar Radio Cymru dyma'r cofnod cynharaf eleni yng Nghymru.

FELINDRE

NEBO

Oedfaon 10.30 y bore.

MIS GORFFENAF

- 4 Mr Alun Brin
- 11 Y Parchedig Desmond Davies
- 18 Y Parchedig John Morgan
- 25 Y Parchedig Vincent Watkins

MIS AWST

- 1 Y Parchedig Rhys Locke
- 8 Y Parchedig Glan Roberts
- 15 Y Parchedig Brenning Davies
- 22 Y Parchedig Meirion Evans
- 29 Y Parchedig David Jones

Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi bod yn ddigalon i lawer: dim yn digwydd yn unman, methu cwrdd â ffrindiau a chael sgwrs gydag aelodau ffyddlon Nebo. Ond mae'n llawenydd i'n hysbryd i weld ein bod wedi cael dyddiad i ailagor y capel ddechrau Gorffennaf. Gobeithio y bydd pawb yn gwneud ymdrech i ddechrau nôl a chadw pellter am ychydig eto, yn lle gweld Nebo yn gorfod dilyn a chau fel llawer o gapeli eraill gwaetha'r modd a chau am byth. Awr yn unig yw bore Sul. A yw hyn yn gofyn gormod i aelodau? Mae croeso arbennig i ffrindiau ac ymwelwyr bob amser i uno.

Mae'n flin gennyf orfod ysgrifennu'r paragraff hwn gan fod ein gweinidog y Parchedig Owen Watcyn Pugh wedi rhoi gwybodaeth i'r eglwys ei fod yn ymdeol oherwydd ei iechyd. Rydym fel eglwys am ddymuno yn dda iddo i'r dyfodol gyda hapusrwydd, iechyd a ffydd y bydd goleuni ar ddiwedd y twnel. Yn y llun gwelir Phyllis Bell, yr ysgrifenyddes yn cyflwyno rhodd iddo am ei wasanaeth a'i gyfeillgarwch am chwe blynedd, a Myra Mainwaring yn cyflwyno torch o flodau i Mrs Christine Pugh am ei chymorth a'i gwasanaeth hithau bob amser.



GENEDIGAETH

Carwn longyfarch Catrin Stone ar enedigaeth merch fach, sef Mabli Angharad. Bydded i Catrin a Jamie lawenhau wrth weld Mabli yn tyfu o ddydd i ddydd. Hefyd llongyfarchiadau i Dad-cu a Mam-gu, sef Anthony a Janis Stone, Cilfaen. Rwy'n siŵr byddwn yn gallu gweld Mabli o'r capel yn chwarae gyda'r teulu cyfan yn Cilfaen. Rhaid cyfeirio at Mrs Ann Morgan, Fferm Myddfai am ei bod hithau yn hen fam-gu ac wedi codi teulu, a'r cyfan yn aelodau yn Nebo ar hyn o bryd.

PEN-BLWYDD

Llongyfarchiadau mawr i David Daniel Jones (Danny) Carreg Lwyd, Felindre ar ddatlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Mae Nebo wedi anrhegu 11 o glaciau (*carriage*) i rai 90 a 100 oed erbyn hyn ac yn edrych ymlaen at un arall y flwyddyn nesaf. Roedd yn dda gweld bod Danny wedi medru dod i Nebo i'w dderbyn gyda diolch i leuan am ei gludo yno yn ddiogel.

Yn y llun gwelir yr Ysgrifenyddes yn anrhegu Danny gyda'r cloc a Mrs Nia Johns y Trysorydd yn trosglwyddo cerdyn oddi wrth yr aelodau i'w longyfarch. Yno, hefyd, mae ein cyn-weinidog y Parchedig Owen Watcyn Pugh.



Ganwyd a magwyd Danny ar ffarm Tresgyrch ar fynydd y Baran. Mae cymuned y Baran wedi bod yn bwysig ac yn werthfawr i Danny erioed a chynnyrch y gymuned glos yno ydyw. Un o'i bleserau mawr yw hel atgofion am ei ddyddiau yn Tresgyrch a'r cymeriadau oedd yn tramwyo llwybrau'r Baran yr adeg honno. 'Mab y mynydd', yn wir, lle bu'r elfennau yn ei feithrin i'r hyn ydyw.

Er y gwreiddiau yma, symudodd y teulu yn 1945 i Felindre ac ymsefydlu ar ffarm Llwyngwenno. Ymhen rhai blynyddoedd sefydlodd ar ffarm Carreg-lwyd, ac yna mae ef a Helen, ei wraig, yn byw. Maent yn adnabyddus iawn ac yn uchel eu parch gan bawb sy'n eu hadnabod am eu bod wedi bod yn gefnogol iawn i bob gweithgaredd lleol. Mae Danny ynghyd â'i frodyr a'i chwiorydd, sef Marian, Tom, Gwenno ac Owen yn blant i Harri a Beatrice Jones. Diddorol nodi bod Owen hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yr un adeg a'i frawd Danny.

Ar ran pawb, sy'n 'nabod Danny, boed yn deulu neu'n gyfeillion, llongyfarchwn ef yn wresog iawn ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 90 oed a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol.

YSBYTY

Mae Marian Lewis wedi dod adref o'r ysbyty at ei theulu ar ôl bod yn cael triniaeth. Bu Mrs Christine Pugh yn ysbyty Treforys ond cafodd ddod adref wedi ychydig o oriau. Cafodd William Bell ddamwain ar y fferm gyda'r defaid pan dorrodd ei glun ond mae adref erbyn hyn. Bu Noel Williams, Derwydd, yn yr ysbyty wrth iddo gael ei daro a strôc ond mae yntau adref erbyn hyn. Mae Rowena Miles wedi dod allan o'r ysbyty ar ôl bod yno sawl gwaith yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau am wellhad cyflym i bawb a hefyd i Carys Jones sydd yn derbyn triniaeth ac yn byw yn Llundain. Mae Matthew Johns, gŵr Nia, wedi cael damwain a thorri ei bigwrn. Gwellhad llwyr a buan i'r holl ffrindiau yma sydd mewn poen a blinder.

CLYDACH

Fydd unman fydd yr un peth ar ôl y pandemig! Mae 'na edrych 'mlaen i'r rheolau gael eu llacio a chyfle i gymdeithasu unwaith eto. Mae'r holl dai bwyta yn y pentref yn edrych ymlaen unwaith eto i groesawu cwsmeriaid. Mae nifer wedi darparu'n arbennig dros y cyfnod clo. Roedd digon o brydiau parod o bob math yn y pentref i fwydo pob chwaeth. Mae Fresh 2 Lips wedi cau a Dolly May yn ei le. Yn ôl y sôn, agorir siop flodau yn adeilad yr hen swyddfa bost. Ganol y mis bydd grwpiau bach yn gallu cwrdd. Mae edrych ymlaen yng Nghlydach at gael cadw'n heini; eisioes gwelir sesiynau teulu o dan Antur Fit tu allan ddwy waith yr wythnos yng Nghlydach, a lleoedd fel DJ Boxing, Salem a Yoga Place yn y Ganolfan Yoga yn hen eglwys St John.

CAPEL Y NANT

Mae nifer o eglwysi'r ardal wedi cynnal gwasanaethau dros Zoom yn ystod y cyfnod clo ond yn ystod Mai a Mehefin, bydd nifer yn ailagor gan bwyll gan gyfyngu ar y niferoedd.

Yng Nghapel y Nant bwriadwn ailagor ac ar yr un pryd cynnal yr oedfa dros Zoom ar 16 Mai. Rhaid paratoi ar gyfer hyn ac wedyn bydd rhaid gwisgo mygydau a pheidio canu.

Pen-blwydd hapus i Dewi Hughes, a fu'n dathlu'n ddiweddar. Derbyniodd Dewi nifer o gyfarchion ac yn eu plith ddau englyn gan y Prifardd Robot a'r bardd bach Non Lewis.



Dewi a Cadi'n dathu'r pen-blwydd

I DEWI YN 80 OED

Heb orffwys, agoraist gwysi – union
Dy wasanaeth, Dewi;
Yng ngrawn teilwng y rheini
Wyth deg haf a welaf i.

Robot

Ei lais cynnes di-fesur – ei ynni
yn gannwyll a chysur
I'w eglwys a'i ffydd eglur,
Hwn yw'n tŵr, y gŵr heb gur.

Non

MERCHED Y WAWR

Curo'r Corona yn Camu - rwy'n siwr bydd Merched y Wawr wedi hen gyrraedd y miliwn dros Gymru. Mae merched Clydach wrthi hefyd, pob un â'i declyn i rifo. Mae darllen am yr hyn y mae rhai yn ei wneud dros Gymru yn codi cywilydd ar eraill ohonom! Mae pob cam yn help ac yn ein cadw'n iachach.

Wrth baratoi rhaglen ar gyfer eleni roeddem i gyd yn awyddus i gael noson gerddorol ac wedi gwahodd Dr Fiona Gannon. O'r arfer ei chynnal yn Neuadd y Nant fe wyddem bod piano ac organ yn gyfleus a byddem yn cael noson amrywiol. Siom i bawb wrth gwrs yw'r cyfnod clo a methu bod wyneb yn

TREBANNWS

wyneb, ond dal i fynd a wnaethom yng Nglydach. Cawsom noson arbennig gyda Fiona yn sôn am ddylanwad cerddoriaeth yn ei bywyd. Gwyddom am ei gallu arbennig fel organydd ac unawdydd a chlywsom enghreifftiau o gerddoriaeth amrywiol iawn, tonau ar gyfer emynau syml, darnau ar gyfer yr organ o waith Dietrich Buxtehude a gwaith corawl o waith Mendelssohn. Os ydych yn adnabod Fiona fe ddeallwch yn gyflym am y dylanwad gafodd ei rhieni arni ac roedd yn amlwg yn ei dewisiadau bod rhai o'r darnau yn golygu llawer iddi. Eisioes mae nifer ohonom wedi ei chlywed yn chwarae'r obo ac am ei datganiad o 'Gabriel's Oboe', prif thema ffilm 'The Mission' o waith Ennio Morricone - un o hoff ddarnau ei mam. Penllanwr noson oedd gwrando ar ŵr Fiona, sef Bill a'u mab Llywelyn o'r llofft yn chwarae deuawd ar yr acordion a'r recorder, sef trefniant o ddwy alaw werin Gymreig gan gynnwys 'Llanberis'.



Elaine Waghorn

Croesawyd Fiona ac aelodau eraill y Rhanbarth i'r noson gan ein Llywydd, Jean Bowen. Hwn oedd y tro cyntaf iddi hi fod ar y Zoom ac roedd y llawenydd o orchfygu'r dechnoleg yn amlwg. Diolchwyd ar ran y gangen gan Elaine Waghorn.

Llongyfarchiadau i Elaine hefyd ar fod yn un o'r enillwyr yng nghystadleuaeth pennill i'w roi mewn cerdyn Nadolig. Yn ystod y mis cynhelir Gŵyl Haf y mudiad yn rhithiol.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Yng Nghlydach arferem fod tu allan i'r Co-op yn casglu, ond ni ellir gwneud hynny eleni. Bydd Dr Alan Cram yn gwneud taith feicio noddedig a bydd Dr Fiona Gannon yn chwarae emynau o *Ganeuon Ffydd*, a chyfle i chi noddri drwy ddewis emyn. Ar nos Wener 14 Mai cynhelir Cwis ac Ocsiwn a derbynir nwyddau gan Fiona ar gyfer yr ocsiwn. Cysylltwch â Dr Alan Cram neu Annette am ddolen ar gyfer y Zoom.

Dyma'r ddolen ar gyfer eich cyfraniadau: <https://www.justgiving.com/fundraising/fiona-gannon1>

TŶ CROESO

TEIMLO'N UNIG?

Mae gweithgreddau Tŷ Croeso wedi eu cyfyngu yn ystod y pandemig ond mae'r Banc Bwyd wedi bod yn brysur. Cynhelir Siop Siarad ar gyfer y dysgwyr bob bore Gwener ar Zoom.

O Fai 3ydd, dechreu'r rhywbeth newydd o Tŷ Croeso. 'TY CROESO LISTENING EAR - CLUST I WRANDO.' Os ydych yn teimlo'n unig gellwch ffonio rhwng 5 a 6, Llun i Gwener i gael clust i wrando - y rhif ffon yw 007376 529332



COFIO CLIFF

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu a ffrindiau Cliff Jones, Heol Abertawe, a fu farw ar ddechrau mis Ebrill, yn 89 oed. Roedd Cliff yn wyneb cyfarwydd a phoblogaidd yn y pentref, ac yn aelod o deulu mawr ac adnabyddus. Bu Cliff yn ŵr cariadus i Marian am gyfnod o 65 o flynyddoedd, yn dad hynod gefnogol i Robert, Rhodri a'r diweddar Anthony, yn dad-yng-nghyfraith annwyl i Ceryn a Hayley, yn dad-cu arbennig i Emily, Tiaan, Nicholas, Shaw a Verity, a hen-dad-cu i Mila.

Rheolwr gyda'r Cwmni Dur Prydeinig oedd Cliff o ran ei alwedigaeth, er iddo ddechrau ei fywyd gwaith fel trydanwr yng Nglofa'r Darren yn Nhrebannws. Bu Cliff yn ffigwr allweddol yn llwyddiant rhagorol ei feibion ar y cae rygbi, ac mae'n debyg iddo drawsnewid ei ardd gefn i fod yn debycach i lain griced yn yr haf, a chae rygbi am weddiill y flwyddyn, er mwyn cynnig y cyfle gorau posibl i'r tri brawd i ddatblygu eu sgiliau pasio, rhedeg, taclio, batio a bowlio. Gwnaeth ef a Marian bopeth o fewn eu gallu er mwyn sicrhau bod y tri mab yn cyrraedd eu potensial ac yn gwredu eu breuddwydion. Yn wir, doedd dim byd gwell gan y ddau na theithio i feysydd ar hyd a lled Prydain er mwyn cefnogi'r bechgyn.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Cliff, a thrwy ei oes bu'n ffyddlon iawn i'w bentref genedigol, gan gynrychioli tîm y 'Banos gyda dawn ac ymroddiad yn ei ieuencid. Bydd colled fawr ar ei ôl.

NEWYDDION O'R YSGOL

Am gyfnod prysur i ddisgyblion yr ysgol ers gwyliau'r Pasg! Fel rhan o'r Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored, mae'r plant wedi bod yn plannu hadau o bob math, megis blodau'r haul, ffa, pys, ciwcybr, yn ogystal â blodau sy'n denu gwenyn. Mae planhigion tomato, letys a thatws eisoes yn tyfu yn ein gardd.



Disgyblion Trebannws yn plannu hadau



Hefyd, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn datblygu eu sgiliau mesur, yn darlunio lluniau gan ddefnyddio sialc ac ymarfer sgiliau darllen geiriau allweddol wrth gwblhau 'Hopscotch'. Bu'r Adran Iau yn ymchwilio i gysgodion ar fuarth yr ysgol, yn cwblhau cwrs antur tra bod mygydau dros eu llygaid gan ddibynnu'n gyfangwbl ar gyfarwyddiadau eu partneriaid am gymorth, yn ogystal â chwblhau helpfa drysor yr wyddor, datrys problemau cadwyni bwyd, braslunio'r ysgol a chreu ffwrn solar. Bu ddisgyblion yr Uned yn arbrofi gyda chreu parasiwt a phwyso gwahanol bethau er mwyn darganfod pa rai oedd y trymaf.

Braf oedd croesawu'r Blismones Ceriann Hughes i'r ysgol er mwyn cynnal sesiynau wyneb yn wyneb â'r plant. Ffocws y Cyfnod Sylfaen oedd Pobl Sy'n Ein Helpu, tra'r oedd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Bu staff y Gweilch yn cynnal gweithgareddau sgiliau rygbi, ac edrychwn ymlaen at gwrdd ag ambell chwaraewr ar ein taith stadiwm rithiol.

Hoffwn fel ysgol ddiolch yn fawr i Laura o 'My Green Valley' am yr offer casglu sbwriel, ac edrychwn ymlaen at eu defnyddio yn y gymuned fel rhan o'n hastudiaeth o'r ardal leol.

Llongyfarchiadau enfawr i Esme a Betty am ennill gwobr 'Morrisons Community Morfa – A Little Sunshine'. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ddwy chwaer wedi bod yn weithgar iawn yn y gymuned, wrth helpu creu llwybr Nadoligaidd naturiol i deuluoedd, creu anrhegion a wnaed o does halen i weithwyr y GIG, a chymryd rhan mewn ymgyrch casglu sbwriel. Da iawn, ferched!

Chwilio am gantorion Cymru sy'n breuddwydio am ganu gyda'u harwyr

Mae'r rhaglen sy'n codi'r galon, 'Canu Gyda Fy Arwr', yn ôl am ail gyfres ac yn rhoi cyfle arall i unigolion neu, am y tro cyntaf eleni, grwpiau, gymryd rhan mewn profiad hollol unigryw o ganu gydag arwr cerddorol.



Roedd y gyfres gyntaf, a ddarledwyd ar S4C ym mis Ionawr 2021, yn cynnwys Elin Fflur, Shân Cothi a Dafydd Iwan yn canu gyda phobl o wahanol gefndiroedd gyda rhai yn enwebu eu hunain ac eraill yn cael eu henwebu gan ffrindiau neu deulu, fel sypris llwyr!

Roedd rhai o'r unigolion lwcus a gymerodd ran y tro diwethaf yn cynnwys gweithiwr y Gwasanaeth Iechyd, gofalwr Parc y Scarlets, disgybl chwech oed sydd wrth ei bodd yn canu, cymeriad lleol yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 oed, cyn-ganwr oedd wedi colli ei hyder a llawer iawn mwy.

Mae'r tenor adnabyddus Rhys Meirion, sy'n cyflwyno'r rhaglen, nawr yn chwilio am freuddwydwy newydd sydd wrth eu boddau â cherddoriaeth i gymryd rhan mewn deuawdau disglair ar gyfer y gyfres nesaf. Ac eleni, nid dim ond unigolion sy'n gallu cael y cyfle unigryw yma. Mae modd i deulu, grŵp o ffrindiau, aelodau o'r un côr neu gymdeithas gymryd rhan!

Mae Rhys wedi gweld y potensial sydd gan y gyfres hon i newid bywydau: 'Dw i wedi bod yn ffodus i gael cyfle i ganu gyda rhai o'm harwyr ar hyd fy ngyrfa – nid yn unig ar lwyfan ond ar y sgrin hefyd yn y gyfres Deuawdau Rhys Meirion. Mae profiadau fel hyn wir yn newid eich bywyd er gwell.

"Mae Cymru'n cael ei hadnabod fel gwlad y gân ac rydyn ni am ddod â mwy o'i chantorion cudd i'r awyr agored, arddangos eu talentau a'u cael i ganu gyda'u harwyr a'u harwresau cerddorol.

"Rydyn ni eisiau clywed gan gymaint o bobl â phosib i ddweud wrthym am eu gobethion a'u breuddwydion cerddorol. Ac unwaith eto, does dim terfyn ar bwy all wneud cais. Rydyn ni'n chwilio am bobl o 10 i 110, a gall y rhaglen ymdrin ag unrhyw *genre* cerddorol – o'r pop i'r clasurol, roc i reggae, jazz, gwerin, unrhyw beth!

'Cymrwch gyfle a gwnewch gais - mae gennych bopeth i ennill a dim i'w gollu. Rydych chi wedi gweld y profiadau anhygoel a bythgofiadwy gafodd pobl yn y gyfres gyntaf – felly ewch amdani!'

Mae'r Cyngor a Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau syrthio yn y cartref:

Ydych chi'n cael trafferth mynd i fyny ac i lawr y grisiau, eistedd neu godi oddi ar y tŷ bach, defnyddio'r bath neu gawod neu fynd i mewn ac allan o'r tŷ yn ddiogel? Ydych chi'n poeni am syrthio wrth wneud y pethau hyn? Os hynny, cofiwch gysylltu â Chyngor Sir Powys neu Ofal a Thrwsio ym Mhowys am help.

Bydd y tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion neu'i bartneriaid Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn gallu awgrymu offer neu addasiadau i'ch helpu chi barhau i fyw'n annibynnol yn eich cartref - p'un ai'n byw mewn tŷ cyngor, yn berchen ar eich eiddo neu'n rhentu'n breifat.

Dywedodd Diane Whittingham, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol gyda'r Cyngor: "Ry'n ni dal i fod yma i helpu. Rydym yn gweithio'n wahanol nawr o'n cartrefi, ond cofiwch gysylltu a chawn weld sut y gallwn ni helpu. Rydym yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Gofal a Thrwsio a gallan nhw osod cyfarpar megis rheiliau cydio, hanner grisiau neu reiliau grisiau yn eich cartref mewn ffordd sy'n ddiogel o ran Covid-19."

Mae hefyd yn syniad da i gael gwared ar fatiau, rygiau a phethau eraill all achosi i chi faglu. Hefyd, gwnewch yn siwr fod goleuadau da yn yr ystafelloedd, cynteddau a'r grisiau a gwisgwch esgidiau neu sliperi sy'n ffitio'n dda ac mewn cyflwr da ac yn dynn o amgylch y bigwrn er mwyn lleihau'r posibilrwydd o syrthio.

Debbie Brooks yw'r Rheolwr Gwasanaeth a Gwaith Achos gyda Gofal a Thrwsio ac esboniodd: "Rydym yn gwybod fod rhai pobl â mwy o risg o syrthio oherwydd iddynt osgoi gofyn am help dros y pandemig, ond fel y cyngor, ry'n ni yma i helpu." Esboniodd Ms Brooks y dylai trigolion Powys gysylltu â Gofal a Thrwsio yn syth ar 01686 620760 neu ar enquiries@crpowys.co.uk am y pethau bach megis gosod rheiliau neu lefelu llwybrau.

Ar gyfer gwaith addasu mwy o faint, megis gosod lifft grisiau neu addasu'r ystafell ymolchi, dylai trigolion Powys cysylltu â thîm CYMORTH y cyngor ar 0345 602 7050 neu ar-lein ar Cysylltwch â CYMORTH ar-lein - Powys

Fordd arall o ddarganfod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael yw drwy'r wefan am ddim AskSARA.

Adnodd ar-lein yw hwn a all eich cyfeirio at sefydliadau - neu offer - sy'n gallu gwneud byw'n annibynnol yn haws. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma www.powys.livingmadeeasy.org.uk/:



Alan Cook, Swyddog Mân-addasiadau Gofal a Thrwsio ym Mhowys.

Felly os ydych chi'n breuddwydio am ganu gydag arwr neu arwres arbennig, neu eisiau enwebu ffrind, aelod o'r teulu neu grŵp sy'n haeddu'r profiad bythgofiadwy yma, mae angen cysylltu â chwmni cynhyrchu teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon, erbyn dydd Llun, Mehefin 7, 2021.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais ac anfonwch glip fideo byr i <https://www.cwmnida.cymru/canu/>. Ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â canu@cwmnida.tv neu 07483904452.

Cyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg CYN 2050?

Posib neu beidio? Posib – wrth gwrs!

Oedolion sy'n dysgu yw'r ateb ond y broblem fwyaf yw bod llawer yn gadael y cyrsiau am wahanol resymau ac mae llawer o'r rhai sydd yn cyrraedd diwedd yr ail flwyddyn yn methu darganfod y drws i mewn i'r gymdeithas. Mae gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith.

Beth am annog dysgwyr yr ail flwyddyn i ddechrau cael cyfarfodydd i ymarfer eu hiaith a hynny mewn lle cyhoeddus? Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cymry Cymraeg ddod i'w hadnabod nhw ac i roi gwahoddiad iddyn nhw i'r gymuned.

Hefyd, unwaith maen nhw wedi gorffen yr ail flwyddyn bydd y grŵp yna i roi cymorth i'r ail flwyddyn sydd wedi eu dilyn, ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Yn sydyn mae pont wedi ei greu i'r gymuned, bydd mwy o'r dysgwyr yn dal ati tan ddiwedd y cwrs achos maen nhw'n cymysgu â dysgwyr mwy profiadol.

Bydd y bont sydd wedi ei greu yn bwydo gwaed newydd i'r gymuned leol sydd wir ei angen.

Er mwyn cael y gorau o'r cynllun syml yma mae rhaid i'r grŵp gyfarfod mewn lle cyhoeddus, yn yr un lle, ar yr un amser ac yn rheolaidd.

Yr unig beth sydd angen wneud yw:

Cael y tiwtoriaid i annog y dysgwyr i ddechrau'r grŵp.

Cael y Fenter Iaith i roi cymorth iddyn nhw wrth fod yna i gadw sgysiau i fynd yn yr wythnosau cynnar.

Gwneud yn siŵr bod y papur bro yn tynnu sylw at y grŵp.

Mae dysgwyr yn llawn brwdfrydedd a bydden nhw yn ased mawr i'r gymuned a'r iaith.

Cynllun bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr heb gost i'r llywodraeth!

Ers blwyddyn bellach 'dw i wedi bod yn cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw *Y Wennol*, y cyfranwyr i gyd yn ddysgwyr. Ces i'r syniad am y cynllun hwn ar ôl i un o'r cyfranwyr ysgrifennu am sut wnaethon nhw ffurfio grŵp i gyfarfod yn y Three Cliffs Cafe yn Southgate, Gŵyr. Mae Southgate yn bentref Saesneg yr olwg ond wrth ffurfio'r grŵp maen nhw wedi dod i adnabod llawer o siaradwyr Cymraeg yn y pentref. Mae aelodau'r grŵp wedi cael eu cyflwyno i Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac erbyn hyn yn aelodau selog.

Mae'r cynllun 'dw i'n ei awgrymu uchod wedi ei seilio ar brofiad aelodau o'r grŵp. Roedden nhw'n ysu am gyfle i siarad yr iaith roedden nhw wedi gweithio mor galed i'w dysgu. Nid ydyn nhw'n cyfarfod ar hyn o bryd wrth gwrs ond mi fyddan nhw'n ail ddechrau cyn cyntedd â phosib.

Pan nes i feddwl am ddechrau cyhoeddi'r *Wennol* roedd angen cyfranwyr, a gan fod gen i gysylltiad â'r grŵp yn barod, atyn nhw nes i droi. Erbyn hyn maen nhw wedi cael

llawer cyfle i ysgrifennu ac wedi mwynhau'r profiad. Mae eu herthyglau wedi cael eu cyhoeddi yn ein papur bro a hefyd yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd. Erbyn hyn mae 13 rifyn o'r *Wennol* wedi ei gyhoeddi; heb y dysgwyr bysw'n i byth wedi medru gwneud hynny. Faint o ddysgwyr medrus sydd yn mynd ar goll pob blwyddyn?

Mae creu'r grŵp wedi rhoi agoriad i'r gymuned Gymraeg o'u cwmpas iddyn nhw. Maen nhw wedi cael newid byd, a'r gymuned Gymraeg yr un peth. Os dyna yw'r effaith yn Southgate meddylwch am yr effaith trwy Gymru gyfan petasai'r un peth yn digwydd ym mhob ardal.

Mewn ychydig o fisoedd bydd y dosbarthiadau nos yn dod i ben. Rŵan yw'r amser i ddechrau sicrhau nad ydyn ni'n colli'r dysgwyr sydd yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd. Felly i chi'r tiwtoriaid sydd yn darllen hyn ewch ati i annog eich dysgwyr i greu grŵp cyn i'r flwyddyn ddod i ben.

Peidiwch â gadael pethau'n rhy hwyr!

Hyd y gwn i does neb wedi ffurfio cynllun i'r Cymry Cymraeg ddilyn i sicrhau dyfodol i'r iaith. 'Dw i'n meddwl bydd y cynllun hwn yn gwneud byd o wahaniaeth i lwyddiant dysgwyr i feistrol'i'r iaith. Ond nid siarad am y broblem sydd rhaid – mae angen gweithredu!

Rydym newydd lenwi ffurflenni'r cyfrifiad a bydd yn ddiddorol gweld faint o siaradwyr Cymraeg sydd o'i gymharu â deg mlynedd yn ôl. Beth bynnag fydd y ffigyrau'n dangos, mi fydden nhw wedi bod yn llawer gwell petasem ni wedi gwneud rhywbeth fel hyn ddeng mlynedd yn ôl!

Rob Evans

LLYTHYR

Annwyl olygydd,

Tybed oes rhai o'ch darllenwyr awydd sialens newydd neu'n chwilio am ychydig o waith ac eisiau gweithio fel tiwtor Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisiau casglu cronfa o enwau pobl fyddai â diddordeb gweithio fel tiwtor, gyda'r oriau gwaith yn gallu amrywio o ddwy awr i dros 20 awr yr wythnos. Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur o wersi ar-lein i'r Ganolfan, ac mae 'na alw parhaus am diwtoriaid i ddysgu'r miloedd o oedolion sy'n cofrestru ar gyrsiau bob blwyddyn.

'Dyn ni'n chwilio am bobl ym mhob rhan o Gymru i ymuno gyda'r tîm o diwtoriaid gwych sydd eisoes yn gweithio gyda ni. Yn ddelfrydol, 'dyn ni'n chwilio am brofiad dysgu blaenorol, ond y nodweddion hollbwysig ydy brwdfrydedd ac ymroddiad at y Gymraeg.

Bydd y Ganolfan yn casglu enwau pobl sydd â diddordeb, i'w rhannu gyda'i darparwyr cyrsiau, fel y gallan nhw gysylltu'n uniongyrchol i drafod cyfleoedd gwaith posibl. Mae tiwtoriaid yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwyr.

Mae'r dysgwyr yn dysgu ar bum lefel wahanol – o gyrsiau Mynediad ar gyfer dechreuwyr, i gyrsiau Uwch a Hyfedredd ar gyfer y rheiny sy'n siaradwyr profiadol. Mae'r gwersi i gyd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd canran o'r dosbarthiadau yn dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb mewn lleoliadau ar draws Cymru pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

I gofrestru eich diddordeb, ewch i: <https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/recrwtio-tiwtoriaid/>

Diolch yn fawr a chofion gorau,

Helen Prosser

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Côr Meibion Rhos Cwmtawe: Taith i Birmingham, Alabama 1991

Dri deg mlynedd yn ôl ym 1991, roedd Côr Meibion Rhos Cwmtawe yn un ar hugain oed, a pha ffordd well i ddatlu'r achlysur na derbyn gwahoddiad i gynrychioli Cymru ar lwyfan Gŵyl Gelfyddydau Birmingham, Alabama, America. Roedd Gŵyl Gelfyddydau Birmingham, Alabama, hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn un a deugain mlwydd oed ym 1991, a bwriad yr Ŵyl pob blwyddyn oedd i gyflwyno i drigolion Birmingham, Alabama, ymwybyddiaeth o ddiwylliant perthnasol i fyf arall.



Ym 1991, roedd yr Ŵyl Gelfyddydau yn dathlu celfyddydau a diwylliant y Deyrnas Unedig. Cafodd y Côr wahoddiad i gymryd rhan yn yr Ŵyl arbennig hon oddi wrth Dr. Mark Doyle a'i wraig Leslie, mab a merch yng nghyfraith Mr. a Mrs. Steve Doyle, cigydd adnabyddus gynt ym Mhontardawe.

Ar y pryd roedd Dr. Mark Doyle yn darlithio ym Mhrifysgol, Birmingham, Alabama, ac roedd ef a'i wraig yn aelodau gweithgar o bywllgorau'r Ŵyl. Wrth i Dr. Mark Doyle a'i wraig, Leslie, ymweld â Phontardawe ym mis Tachwedd, 1990 a siarad â Mr. John Moses, Ysgrifennydd Cyngherddau y Côr, estynnwyd gwahoddiad i Gôr Meibion Rhos Cwmtawe i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl arbennig hon.

Am chwarter i chwech ar fore dydd Llun 22 Ebrill, fe wnaeth Côr Meibion Rhos Cwmtawe, ynghyd â'u harweinydd, Glyn Williams, â'u cyfeilydd, Dorothy Hearn, ddechrau ar eu ffordd i faes awyr Gatwick, Llundain, ar gyfer hedfan i Atlanta, Georgia ac yna teithio mewn bws i Birmingham, Alabama. Ar ôl taith hir a blinedig fe gyrhaeddodd y Côr 'Southern College Campus,' yn Birmingham lle roeddent yn aros yn ystod eu hymweliad. Am y pymtheg niwrnod nesaf byddent yn cymryd rhan flaenllaw mewn gwledd o gerddoriaeth – amser cyffrous i bawb.

Yn cynrychioli y Deyrnas Unedig ynghyd â Chôr Meibion Rhos Cwmtawe oedd y 'Black Voices,' grŵp pwerus o ferched a capella o Birmingham, Lloegr. Ffurfiwyd y grŵp hwn ym 1988. ac aethant ymlaen i berfformio mewn llawer o gyngherddau cenedlaethol ynghyd â chymryd rhan mewn nifer o raglenni ar y radio a theledu ar draws y byd. Rhaid nodi fan hyn y derbyniodd 'Black Voices' y gwahoddiad oddi wrth Gôr Meibion Rhos Cwmtawe i gymryd rhan yn eu Cyngerdd Blyneddol a gynhaliwyd yng Nghapel yr Allt-wen ar ddydd Sadwrn 14 Tachwedd 1992. Braf oedd cael adfer ein cysylltiad â'r grŵp arbennig hwn.



Carol Pemberton, Sandra Francis, Beverley Robinson, Rosalee Sinclair, Anne-Marie Barnett

Ar ddiwrnod cyntaf y Côr yn Birmingham, Alabama, sef, dydd Mawrth, 23 Ebrill, ac wrth inni deithio o amgylch y ddinas mewn bws, daethom ar draws yr Eglwys Fedyddiedig ar Stryd 16. Dyma'r Eglwys a ddinistriwyd ar ddydd Sul 15 Medi 1963, gan y Klu Klux Klan ar ôl iddynt osod ffrwydron o dan risiau ystafell isaf yr Eglwys. Lladdwyd pedair merch y bore hwnnw wrth iddynt fynd i'r Ysgol Sul.


O ganlyniad y ffrwydrad fe grewyd cofeb, sef, y 'Ffenestr Gymreig' gan yr arlunydd enwog John Petts o Lansteffan. Cafodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe y fraint o gwrdd â Gweinidog yr Eglwys, sef y Parchedig Christopher Hamlin a chael yr anrhydedd o fod y Côr cyntaf o Gymru i ymweld a chael y cyfle i ganu yn yr Eglwys hanesyddol hon.

Dyma ran o neges a ysgrifennwyd gan y Parchedig Christopher Hamlin yn fy llyfr personol:



What a delight it was to have you grace the Sixteenth Street Baptist Church, Birmingham, Alabama. Your presence rekindled a relationship that began with the people of Wales in 1963 when monies were donated to produce and install the Wales Window. We were privileged to have you here and to behold the Window. May your travels continue to thrill the hearts of many and lift the load of oppression throughout the world. With every grace,

Rev. Christopher M. Hamlin.



Un o uchafbwyntiau Gŵyl Gelfyddydau Birmingham, Alabama, oedd i'r Côr dderbyn gwahoddiad, fel y nodir uchod, i gymryd rhan mewn cyngerdd yn y 'Boutwell Auditorium' ar nos Wener 26 Ebrill. Cynlluniwyd llwyfan arbennig ar gyfer y gyngerdd ac yn cymryd rhan roedd: Côr Meibion Rhos Cwmtawe; Black Voices; Corau Plant; Corau Iuenctid; Corau Eglwysig; Bandiau;

Cerddorfeydd ac Unawdwyr.


Roedd y gynulleidfa hardd yn rhifo pum mil a phum cant o bobl gyda'r cyfan oll o dan arweinyddiaeth feistrolgar Dr. Thomas Gibbs y Cyfarwyddwr Cerdd a'r Cynhyrchydd Mary Jean Parson. Noson i'w chofio yn wir.

parhad ar y dudalen nesaf

Taith i Birmingham, Alabama 1991 – *parhad*

Ar ddydd Sul 28 Ebrill, canodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe yn Eglwys 'Canterbury Union Methodist,' i dros fil o bobl a hynny yn gynnar iawn yn y bore. Ar yr un diwrnod, roedd y grŵp 'Black Voices' yn canu mewn gwasanaeth yn Eglwys '6th Avenue Baptist'. Roeddent yn awyddus iawn i Gôr Meibion Rhos Cwmtawe ymuno â hwy yn y gwasanaeth hwnnw ar ôl iddynt ganu yn Eglwys 'Canterbury Union Methodist.' Pan gyrhaeddodd y Côr Eglwys, 6th Avenue Baptist, ychydig a wyddom beth oedd yn ein disgwyl. Am un ar ddeg o'r gloch y bore hwnnw, roedd

Eglwys '6th Avenue Baptist' yn orlawn gyda dros ddwy fil o adolwyr - pobl dduon i gyd yn bresennol gan gynnwys Côr Cymysg o gant a hanner o aelodau'r Eglwys, cerddorfa enfawr, piano, organ a drymiau. Canodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe, 'Ride the Chariot,' a'r emyn 'Gwahoddiad.' Ar ddiwedd 'Gwahoddiad,' ac megis fel un corff, safodd y gynulleidfa hardd ar ei thraed i gymeradwyo perfformiad y Côr. Ac yn wir mae'r gymeradwyaeth honno yn dal i aros yn y cof hyd heddiw. Roedd cymryd rhan yn y gwasanaethau yma yn y ddwy Eglwys yn brofiad gwfreiddiol ac unigryw i bob un ohonom. Nid oedd neb ohonom wedi cael y fath brofiad erioed o'r blaen ac mae'n annhebygol iawn y cawn brofiad tebyg iddo byth eto. Ar ôl y gwasanaeth yn Eglwys, '6th Avenue Baptist' cawsom ein tywys lawr y grisiau i ffreutur yr Eglwys i fwynhau cinio dydd Sul.



Ar ddydd Mercher 1 Mai, canodd y Côr hefyd yn Eglwys, 'Dawson Baptist,' Eglwys

hunangynhaliol. Ar y safle roedd yno siopau o bob math, ysgol lle roedd plant aelodau'r Eglwys yn cael eu haddysgu a hefyd ysbyty gyda doctoriaid a nyrsys, ac roedd un rhan o dair cyflog pob aelod yn mynd tuag at gostau'r Eglwys.

Un digwyddiad pwysig arall yn ystod ein taith i Alabama oedd i'r Côr dderbyn anrhydedd Rhyddfrait Dinas Birmingham oddi wrth Faer Birmingham. Digwyddodd hyn mewn Derbyniad Dinesig a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ar ddydd Mawrth 30 Ebrill. Yn y Seremoni cyflwynwyd Tystysgrif ac Allwedd gydag arysgrifen addas arni i Mr. Ron Jephcote, Cadeirydd y Côr, i nodi'r achlysur arbennig hwn. Diddorol yw nodi i Mr. Jephcote wisgo yr Allwedd gyda balchder weddill y daith.



Canodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe mewn dau ar bymtheg o gyngherddau yn ystod eu hymweliad â Birmingham, Alabama.



Ynghyd â'r gyngerdd wfreiddiol yn y 'Boutwell Auditorium' a'r gwahanol berfformiadau yn y gwahanol Eglwysi a

nodir uchod, rhaid sôn yn fyr iawn am un cyngerdd arall. Ar ddydd Iau 2 Mai, ym Mhrifysgol Alabama, cafodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe wahoddiad i gymryd rhan mewn seromoni agoriadol, sef agor adeilad 'Y Tŷ Rhyngwladol' ym Mhrifysgol, Alabama. Yn bresennol roedd nifer o bobl o wahanol wledydd yn cario eu baneri cenedlaethol ynghyd â Llysgennad Prydain.

Er bod ymweliad y Côr â Birmingham, Alabama, o ran y cyngherddau a gynhaliwyd yn un heriol, fe gafodd aelodau'r Côr ddigon o amser i ymlacio a mwynhau eu hunain. Cawsom gyfle, er enghraifft i ymweld â NASA [National Aeronautics and Space Administration] yn Hunstville i edrych o amgylch Amgueddfa'r Gofod yno.



Hefyd fe aethom i weld gêm o bêl fâs. Cyn i'r gêm ddechrau cafodd y Côr ei gyflwyno i'r dorf enfawr a oedd yn llanw'r Stadiwm ac fe gododd aelodau'r Côr ar eu traed i gydnabod y croeso a'r gymeradwyaeth dwymgalon. Ymwelsom ag Amgueddfa Celfyddydau Birmingham, a oedd yn brofiad diddorol ac addysgol iawn. Ar y nos Sadwrn olaf, cafodd aelodau'r Côr, tua phumdeg ohonom ynghyd ag aelodau y grŵp 'Black Voices,' wahoddiad i farbeciw yng nghartref godidog Carol a'i gŵr Jim Staats, aelodau o bwyllgorau'r Wyl. Cafodd y Côr ac aelodau'r 'Black Voices' groeso bendigedig gan Carol a Jim. Braf oedd cael ymlacio a gwledda yn eu cwmni a chael y cyfle i fwynhau ein hunain yn y pwll nofio a'r jacuzzi.

Rhaid sôn fan hyn am ddyn arbennig iawn, sef Donel Poston, gyrrwr ein bws, a oedd wedi gyrru'r Côr i bobman gydol ein taith. Roedd Donel gyda ni yn gynnar yn y bore tan hwyr yn y nos a phleser oedd cael ei gwmi yn enwedig wedi iddi nosi oherwydd roedd e'n gwybod pa dafarnau neu fariau oedd orau i ni ymweld â nhw tra yn Birmingham.

Am un ar ddeg o'r gloch ar ddydd Sul 5 Mai, ymadawodd Côr Meibion Rhos Cwmtawe am adref. Hedfanon ni o faes awyr Birmingham, Alabama am ugain munud i wyth a chyrraedd adref ar ddydd Llun 6 Mai am chwarter wedi dau y prynhawn. Yn aros tu allan i dafarn y 'Smith Arms' yn Rhos i groesawu'r Côr yn ôl, roedd teuluoedd a ffrindiau aelodau'r Côr. Ym marn pob un ohonom, roedd y daith i Birmingham Alabama yn llwyddiannus iawn a bythgofiadwy.



Glyn Williams